

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 318 - 60c
Tachwedd 2013

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Clonc yn ennill Eisteddfod



Tudalen 3

Cadwyn Cyfrinachau yr Ifanc arall



Tudalen 15

Osian ar y brig gyda'r bowlio



Tudalen 28

Ieuenctid y fro yn llwyddo a rhodd hael i elusen



Caitlin Page, [ar y chwith] disgybl yn Ysgol Bro Pedr a wnaeth yn dda yn un o'r 20 a ddaeth i'r brig yn y Ras Ryngwladol ar Fynydd-dir ym mis Medi. Roedd Caitlin yn rhedeg yn y Tim Arian.

Coronwen Neal, [ar y dde] disgybl yn Ysgol Bro Bedr, Llambled a fu mewn gweryll chwaraeon gyda'r Cadets yn Aberhonddu ar Fedi'r 28ain a 29ain a dod yn gyntaf yn y ras tair milltir. Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei llwyddiant a phob lwc iddi yn y gystadleuaeth nesaf lle bydd hi'n cynrychioli Cymru.

Y criw a gymerodd ran yn y Lap o Gymru adeg y Pasg yn trosglwyddo sicc gwerth £15,255.14 i bwyllgor Llanybydder a Llambled, Ymchwil y Cancer. Yn y llun gwelir Llyr Davies a fu yn trefnu'r daith yn cyflwyno'r sicc i swyddogion y pwyllgor sef Ieuan Davies, Lucy Jones a Susan Evans. Hefyd yn y llun mae nifer o'r rhai a fu yn cymryd rhan yn y daith, Rhys Jones, Tracey Davies, Kelly Davies, Emma Davies a Michelle Davies. Pedwar arall a fu'n cymryd rhan ond a fethodd â bod yn bresennol oedd Dyfrig Davies, Angharad Morgan, Llyr Jones a Mererid Davies. Yn dal y sicc ar y chwith mae Maria Parker, un o swyddogion Ymchwil y Cancer yng Nghymru.



Priodas Dda



Llongyfarchiadau i Meinir, merch Ieuan a Jane Jones, Pwllbilwg, Drefach ac Andrew, mab Heulyn a Jenny Davies, Pantyderi, Pentrebach, ar achlysur eu priodas yng Nghapel Bethel, Drefach ar y 10fed o Awst 2013.




Charlotte Mellor, Rhiwson Isaf, Drefach a Matt Clarke a briododd yn Eglwys Llanwenog ddechrau mis Medi. Mae'r ddau yn byw yn Llambled. Hir oes i chwi eich dau.



WEDI CAEL CANIATAD CYNLLUNIO AC EISIAU ADEILADWR?

PEIDIWCH AG EDRYCH DIM PELLACH...

RYDYN NI'N DELIO Â PHOB AGWEDD O'R GWAITH; ADEILADU TAI NEWYDD, ADNEWYDDU, ESTYNIADAU AC ADDASIADAU. O'R CYNLLUNIO I'R CWBLHAU.



- GWAITH COED • TOI • FFENESTRI A DRYSAU • GRISIAU •
- CEGINNAU • YSTAFELLOEDD 'MOLCHI • LLORIAU PREN •
- RHEOLI PROSIECT • DULLIAU EGGI AMGEN A'U GOSOD •



www.cartrefircwm.co.uk

Cartrefir Cwm, 1 Tynyffordd, Rhydybont, Llanybydder, Carmarthenshire, SA40 9QU

Ffôn: 01570 480 214 • Symudol: 07814 027 849 • E Bost: info@cartrefircwm.co.uk



www.facebook.com/clonc



@Cloncyn

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Postiodd **Papur Bro Clonc**

Hydref 13

Cenfogaeth leol arbennig i Ginio Elusennol Ymchwil y Cancr yn y Coleg.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Postiodd **Papur Bro Clonc**

Hydref 11

Côr Chwibanu Clonc yn ennill Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Lowri Wilson

Hydref 6

Rhai o fodelau Sioe Ffasiwn Urdd Ceredigion a Lan Lloft.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Buddug Lloyd Davies.

Hydref 6

Pob lwc i bawb o'r ardal sy'n rhedeg yng Nghaerdydd heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Delyth G Morgans Phillips.

Hydref 5

Meinir Gwilym a Gwenan Gibbard yn Festri Brondeifi neithiwr.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Clwb Hoci Llanybydder.

Medi 28

Y tîm hŷn yn nhwrnament dechrau'r tymor yn Aberteifi heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Tachwedd a Rhagfyr Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590

e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llanbed Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llanbed 422856

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llanbed 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gwpeylfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncy
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Sialens

Diddorol oedd dod ar draws eitem yn ddiweddar yn sôn am ddod â'r injan trên cyntaf o Aberystwyth i Llanybydder yn 1865. Dim byd yn rhyfedd am hynny nes deall fod y trên yn dod ar draws gwlad ar gefn troli. Roedd cymaint â 40 i 50 o geffylau yn tynnu'r llwyth ar adegau. Heddiw mae dod ar draws llwythi anferth yn beth eithaf cyfarwydd, gyda darnau mawr o dyrbinau gwynt yn cael eu cludo ar ein ffyrdd.

(Mae cael hanesydd yn y tŷ yn ddefnyddiol – cael ar ddeall mai Mr Benbow oedd gyrrwr y trên, "The Montgomery". Fe hefyd oedd gyrrwr y trên pan agorwyd y rheilffordd i Bencader).

Ffrind gwrndawyr

Rwy'n gwrandao ar y radio wrth baratoi hwn, rhaglen Iola sydd ymlaen. Mae yna deuluoedd ffyddlon iawn yn gwrandao ac yn cystadlu yn ddyddiol. Mae'n hawdd gweld fod y radio yn gwmni mawr i laweroedd dros Gymru gyfan ac erbyn heddiw dros y ffin.

Llifogydd

Mae'n addo glaw trwm iawn dros y pen wythnos. Flynyddoedd yn ôl roedd gwrandao ar ragolygon y tywydd yn dipyn o sbort, gan mai dyfalu oedd llawer ohono. Erbyn heddiw mae lluniau o loeren yn proffwydo'n weddol agos beth sydd i ddod. Rwy'n cofio'n dda y glaw trwm yn y

50au. Roeddwn newydd gyrraedd adre wedi bod yn gweithio dros y gwyliu yn ffatri Felinfach ac yn edrych allan drwy'r ffenestr ar ryw 50 can llath o hewl oedd yn arwain i'r tŷ. Am ryw reswm, roeddwn yn canolbwyntio ar fedwen ifanc yn y clawdd gyferbyn a'r funud nesaf dyma'r goeden yn cael ei diwreiddio a thon anferth yn dilyn ac yn golchi hanner yr hewl i ffwrdd. Y broblem wedyn oedd fod yr afon yn cael ei rhwystro gan goed a brigau nes creu argae. Roedd y pwysau yn erbyn y rhain yn mynd yn ormod nes creu ton anferth ac afon fechan Meurig yn fygythiad i unrhyw beth ar ei llwybr. Mae'n wers i ni heddiw ofalu ein bod yn clirio dail o'r cwteri fel bod lle gan y dŵr redeg.

Rwy'n dal yn creu darlun yn fy meddwl o'r injan drên a'r 50 o geffylau yn tramwyo heolydd 'Clonc'. Trueni na fedren ni ail greu'r digwyddiad – ond dyna fe, lle mae 'na bum deg o geffylau gwedd ar gael?

Pob hwyl am y tro,
CLONCYN

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i
chi gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

Eisteddfod Papurau Bro

Clonc yn ennill Eisteddfod

Cynhaliwyd Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion nos Wener 11eg Hydref yn Neuadd Felinfach, a daeth buddugoliaeth i Bapur Bro Clonc unwaith eto. Arweinydd y noson oedd Geraint Lloyd BBC Radio Cymru, a'r beirniaid oedd Gareth a Cerys Lloyd, Talgarreg. Trefnwyd y noson gan enillwyr y llynedd sef gwirfoddolwyr Yr Angor gyda chymorth Rhodri Francis, Cered.



Mae naw papur bro i gyd yn y sir ond Papur Bro Clonc enillodd y nifer fwyaf o bwytiau ar y noson gyda'r Angor yn ail a'r Ddolen yn drydydd.

Dyma ganlyniadau Clonc: Dweud Stori Ddigrri: ail - Rhys Bebb Jones, Llanbed; Darllen darn heb atalnodi: cyntaf - Hedydd Thomas, Llanbed; Sgets: Cydradd gyntaf - Clonc a Yr Angor; Côr Chwibanu: cyntaf – Clonc dan arweiniad Elonwy Davies Llanybydder; Peintio hoff gymeriad: cyntaf Ioan, Ysgol y Dderi, ail Shivawn, Ysgol y Dderi, trydydd Ben, Ysgol y Dderi; Blog: cyntaf Morgan Lewis, Cwmann, ail Mari Lewis, Cwmann; Poster: ail Dylan Lewis, Cwmann; Limrig: cyntaf Janet Evans, Llanbed.

Dyma limerig buddugol Janet:

Mi welais drwy gornel fy llygad
Miss Jones yn cusanu'r Offeiriad.
Aeth pethau'n reit boeth
A'r ddau bron yn noeth.

Dychmygwch beth oedd y canlyniad. Hyfforddwyd y sgets gan Gethin Morgan, Cwmann a'r actorion oedd Gethin, Morgan Lewis Cwmann, Lowri Jones Llanbed, Meirion Thomas Llanbed ac Aron Dafydd Silian. Dyna beth oedd hwyl!

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Roedd yn noson ddymunol iawn. Gofynnir am eich cymorth eto'r flwyddyn nesaf pan fydd gwirfoddolwyr Clonc yn gyfrifol am drefnu'r noson.





TACHWEDD

- 9 Gŵyl Cerdd Dant Genedlaethol Cymru ym Mhafiliwn Y Bont.
- 12 Cyfarfod Misol, Cymdeithas Gwenynwyr Llambled a'r Cylch yn Neuadd Mileniwm, Cellan am 8.00y.h. - Sgwrs gan Wally Shaw, Swyddog Technegol, Cymdeithas Gwenynwyr Cymru, ac aelod o Panel Ymgynghorol Iechyd Gwenyn; £2.00 (te a bisgedi yn gynwysiedig) www.lampeterbeekeepersassociation.co.uk
- 17 Cymanfa Ganu Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yng nghapel Shiloh dan arweiniad Carys Lewis am 7.00y.h. Cyfeilydd Bryan Jones.
- 18 Cymdeithas Bethel Parcyrrhos - cwis yr ofalaeth yn Shiloh Llansawel am 7.30 yr hwyr. Cwis feistr - Mr Aled Evans, Cwmann.
- 19 Aelwyd yr Urdd 7.00 - 8.15y.h.
- 19 Bingo gan Ysgol Feithrin Llanybydder yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h.
- 20 Noson Gwin a Chaws i Gân a Cherdd gyda Georgia Ruth ac Eurig Salisbury yn y Morlan, Aberystwyth am 7.30y.h.
- 22 Cyngerdd yn Neuadd Bro Fana gan barti bechgyn 'Ar Wasgar' i godi arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Sir Gâr yn 2014.
- 25 Neuadd y Conoriad Pumsaint Darlith ar enwau lleoedd a chaeau'r ardal gan Dr David Thorne am 8pm Mynediad £3 yn cynnwys te/coffi a bisgedi. Manylion pellach Mair Williams 01558 650309.
- 25 Bingo Nadolig yn Nhafarn y Talardd, Llanllwni am 8.00y.h. Er budd Eglwys St Luc Llanllwni.
- 28 Merched y Wawr Ceredigion - Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Bois y Gilfach - Capel y Tabernacl, Aberaeron am 7.30y.h. Tocynnau £5. Elw at Sefydliad Prydeinig y Galon yng Ngheredigion. Croeso cynnes i bawb.
- 29 Degfed Ffair Grefftau ac Arwerthiant Blynnyddol yn Neuadd y Conoriad Pumsaint 2.00 - 7.00y.h. Elw at Gancr y Fron Cymru.
- 30 Degfed Ffair Grefftau ac Arwerthiant Blynnyddol yn Neuadd y Conoriad Pumsaint 10.00y.b - 4.00y.p. Elw at Gancr y Fron Cymru.
- 30 Arwerthiant Blynnyddol Seion, Cwrtnewydd am 3.00y.p.

RHAGFYR

- 1 Cymanfa Garolau Adran ac Aelwyd yr Urdd am 5.30y.h.
- 7 Neuadd y Conoriad Pumsaint Noson yng nghwmni Ifan Gruffydd a Carlo 7.30y.h. Mynediad £5 yn cynnwys lluniaeth ysgafn. Manylion pellach Mair Williams 01558 650309.
- 7 Noson gyda Clive Edwards yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 7.30y.h. Tocyn £8.00 oddi wrth : Golden Scissors, Susan 480 768, Ann 423 692 neu Jennie 422 625. Er budd Cancer Research UK.
- 15 Oedfa Nadolig Ysgol Sul Noddfa - amser i'w gadarnhau.
- 16 Cymdeithas Bethel Parcyrrhos am 7.30 yr hwyr. Gŵr gwadd - Mr Rob Phillips, Stryd Newydd, Llanbed.
- 29 Noson Gyrfa Chwist gan C.F.F.I. Cwmann yng Nghanolfan Cwmann am 8.00y.h.



Sioned Davies Llanybydder yn fuddugol ar Unawd 8-10 a'i chwaer Ffion Mai yn 2ail yn Canu a Llefaru 6-8 oed yn Eisteddfod Pumsaint.



Ianto Jones, Llambled yn ennill y canu 16-21 oed yn Eisteddfod Felinfach.

O amgylch yr Eisteddfodau



Alwena Mair Owen, Llanllwni yn ennill y cwpan yn y llefaru dan 6 oed yn Eisteddfod Llanarth ac hefyd bu'n llwyddiannus yn y canu a'r llefaru o dan 6 oed ym Mhumsaint.



Sara Elan Jones, Cwmann yn gyntaf ar y Llefaru 10-12oed ac iddi hithau hefyd cyflwynwyd cwpan her y llefarydd mwyaf addawol dan 12 oed yn Eisteddfod Llanarth.



Megan Mai Jones, Blaencwrt yn ennill y Cwpan am ganu piano dan 12 oed yn Eisteddfod Felinfach.



Yn fuddugol ar y llefaru 8-10 oed yn Eisteddfod Felinfach oedd Nia Eleri Morgans, Gorsgoch.



Dana Lois Thomas, Llanllwni yn cipio'r wobwr gyntaf am Ganu Emyr 12-16 oed yn Eisteddfod Felinfach ac yn fuddugol ar yr Unawd a'r Llefaru 12-19 oed a hefyd yn ennill y cwpan am Ddarllen ar y pryd o'r Ysgrythur dan 19 oed ym Mhumsaint.




Siwan Davies, Llanwenog yn ennill Tlws yr Ifanc dan 25 oed yn Eisteddfod Pumsaint. Mae Siwan eisoes wedi ennill cadair yr Eisteddfod Rhyng-golegol.

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro?
Ceir prisau rhesymol iawn
gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£10 yn unig,

a dim ond £60 am ddeg ohonynt.
ysgrifennydd@clonc.co.uk



Ruby Rose

**Bwtic anrhegion
a chartref hynafol.**

2 Market Place, Llanbed
01570 422359
rubyselampeter@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135
07811917799 /
07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensiô o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Llanwnnen

Sefydliad Y Merched

Nos Lun Hydref 7fed cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol yn festri Capel Y Groes gyda'n llywydd Mrs Avril Jones yn y gadair, ac estynnodd groeso cynnes i'r aelodau oll ac i Mrs Ann Jones, Cadeirydd Ffederasiwn Cymru. Ar ôl trafod y materion arferol, diolchodd Mrs Avril Jones i holl swyddogion y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddodd ein hysgrifenyddes adroddiad am ddiwyddiadau'r flwyddyn a chafwyd y manylion ariannol gan ein trysorydd Mrs Alice Davies.

Yna, cyflwynwyd y noson i Mrs Ann Jones ac etholwyd swyddogion fel a ganlyn: Llywydd - Mrs Avril Jones, Is Lywyddion- Mrs Joyce Flexman a Mrs Ceinwen Roach, Ysgrifenyddes - Mrs Ann Hughes, Trysorydd - Mrs Alice Davies. Ysgrifenyddion Rhaglen- Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach. Gohebyddion y Wasg - Mrs Gwen Davies a Mrs Joyce Flexman. Cynrychiolwyr ar Bwyllgor Lles y Pentref - Mrs Gwen Davies a Mrs Avril Jones.

Wedi'r cyfarfod cafwyd arddangosfa trefnu blodau gan Mrs Ann Jones - mae ganddi ddawn arbennig yn y maes hwn. Diolchodd Mrs Avril Jones iddi am ei chyfraniad i'r noson. Gweinwyd y te gan Mrs Mary Davies a Mrs Alice Davies a'r danteithion gan Mrs Avril Jones.

Enillwyd y gystadleuaeth fisol 'cwpn a saser antique' gan Mrs Avril Jones. Enillydd y raffl oedd Mrs Glenys Jones. Bydd ein cyfarfod nesaf yn Gwesty Grannell ar Tachwedd 4ydd. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i David Thomas, Pantffynnon ar i ddyweddïad â Rhian England o Landre ger Aberystwyth yn ystod y mis. Pob dymuniad da i chwi i'r dyfodol.

Ysgol Llanwnnen

Bu Cwrdd Diolchgarwech yr Ysgol yng Nghapel y Groes ganol y mis. Roedd cynulleidfâ fawr wedi dod i gefnogi a gwrando ar neges amserol iawn am 'Ryfeddodau Byd Natur'. Casglwyd £128 a diolch yn fawr



Yn dilyn y Cwrdd aeth aelodau Blwyddyn 6 i Gartref yr Henoed, Cwm Aur, Llangybydder i ddosbarthu yr holl ffrwythau a gasglwyd gan y plant a'u teuluoedd.



Cylch Ti a Fi

Mae plant y Cylch Ti a Fi wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn creu gwaith gyda Mrs Mary Jones. Mae Mary wedi bod yn dod i'r ysgol bob prynhawn dydd Mercher ac mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn lliwio, torri, gludo ac actio. Cafodd y plant hwyl fawr yn y sesiynau hyn. Diolch yn fawr Miss Mary.

iawn i bawb am gefnogi.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan yng ngweithgaredd Sbrî-di-ri yr Urdd. Cafwyd bore o ganu a dawnsio yn Ysgol Bro Pedr. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Diolch i'r holl blant a ddaeth â bocsys sgidiau yn llawn anrhegion i blant mewn gwledydd llai ffodus o dan gynllun 'Joy in a Box'.

Dathlu

Gobeithio fod Mrs Avril Jones, Troed-y-Bryn a Mrs Gwen Davies, Llysaeron wedi mwynhau dathlu pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar.

Iechyd da i chi eich dwy am nifer o flynyddoedd eto.

Ar wellhad

Treuliodd Mrs Lizzie Ann Jones, Penllain gyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Gorsgoch

Gor-ŵyr a gor-wyres newydd

Daeth newyddion da i Mrs Jean Evans, Llwyn y gog pan glywodd ei bod wedi cael gor-ŵyr a gor-wyres newydd, sef Elis a Lois, plant bach ei ŵyr Eilir a'i wraig Catrin ym Mhenrhiwllan. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Diolch

Dymuna Gwilym Jenkins, Glynmeherin, Gorsgoch, ddiolch i bawb a wnaeth ei noddi i redeg y British 10K yn Llundain yn ystod mis Gorffennaf. Codwyd oddeutu £2,600 ar gyfer y Royal Agricultural Benevolent Institution i gynorthwyo gyda'r gwaith o helpu teuluoedd amaeth mewn angen yng Ngheredigion.

Llogi Peiriannau G + C Plant Hire

Gwilym Evans
25 Heol-y-Dderi
Llangybydder
07971041676

Cysylltwch â ni am unrhyw fath o waith ceibo a mân waith sifil

TEIARS

HUW LEWIS

TYRES

TRAFI

BRECC

BATRE

GWACAYRI

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Mae nosweithiau'r Urdd wedi cynnig amrywiaeth o weithgareddau y mis hwn hefyd. Mae cyfle wedi bod i goginio, chwarae gêmâu bwrdd, paratoi llusern ar gyfer Noson Calan Gaeaf yn ogystal â chwarae gêmâu gwirion. Braf oedd gweld pawb yn mwynhau mas draw!

Cafodd Cyfnod Allweddol 2 gyfle i fynd i Bentre Bach i gael blas ar nofel newydd yr awdures Bethan Gwanas am y Gwyllyaid Cochion. Yn gyntaf, siaradwyd am ddillad y cyfnod ac yna darllenwyd stori T. Llew Jones am Wyllyaid Cochion Mawddwy iddynt. Ymlaen â nhw wedyn i glywed Pennod 1 a 2 y nofel newydd a gofynnwyd i'r plant leisio barn amdani. Roedd pawb wrth eu boddau ac yn gweld y nofel yn gyffrous tu hwnt!

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch brynhawn Gwener, Hydref 10fed yng nghapel Seion. Daeth rhieni a ffrindiau ynghyd i wrando ar wasanaeth y plant a chafwyd anerchiad gan y gweinidog, Y Parchedig Jill Thomas. Diolch i bawb a gyfrannodd ffrwythau a llysiau ac hefyd diolch i aelodau'r capel am gael defnydd o'r adeilad. Aeth cynnyrch y tir i Gartref Cwm Aur yn Llanybydder.

Aeth dau o aelodau staff yr ysgol sef Mrs Hannah Thomas a Mrs Wendy Davies i Ffrainc ar drip Comeniws. Rhannwyd arferion y wlad gyda'r plant ar ôl iddynt ddychwelyd a mwynhaodd pawb flasu'r caws a'r siocled. Roeddent yn wahanol ond yn flasu!

Daeth Mr Richard Burgess i'r ysgol i gasglu bocsys Nadolig a oedd wedi eu llenwi gydag anrhegion ar gyfer plant bach Romania. Braf yw cael y cyfle i helpu plant bach llai na ffodus na ni.

Daeth y plant a'r staff i'r ysgol yn gwisgo eitemau o ddillad gwyrdd er mwyn codi ymwybyddiaeth am ailgylchu a'r amgylchedd. Bu pawb yn brysur trwy'r bore yn creu cartref pryd, murlun allan o bethau naturiol a llyfnod o flodau wedi'u gwasgu. Ar ôl cinio, cerddodd pawb i'r pentref a dychwelyd wedi blino'n lân!

Roedd cynnyrch yr ardd eleni yn fendigedig. Treuliodd blwyddyn 5 a 6 brynhawn yn casglu'r tatws ar gyfer eu gwerthu. Diolch i'r rhieni a'r ffrindiau a ddaeth ynghyd i'n helpu.

Cafodd y cyfnod sylfaen hwyl a sbri yn Ysgol Bro Pedr yn canu gyda Gwenda Owen. Roedd y bore wedi ei drefnu gan yr Urdd a Thwf.

Efeilliaid o wyrion

Llongyfarchiadau i Paul a Bessie Williams, Clyncoch ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith yn rhagor – ganwyd efeilliaid i Eilir a'i wraig Catrin lawr ym Mhenrhiwllan – Elis a Lois a brawd a chwaer newydd i Osian.

Cydymdeimlad

Clywyd am farwolaeth Mrs Diana Jones o Lanarth yn ystod y mis a hithau wedi cyrraedd yr oedran teg o 98 ac wedi derbyn gofal tyner yng Nghartref Blaendyffryn. Cydymdeimlwn â'i merch Mair a'i phriod Ronnie yn Pantyrnollen, Blaencwrt a'r teulu oll yn eu profedigaeth ddiweddar.

Arwerthiant Seion

Cynhelir Arwerthiant Blyneddol Capel Seion yn y Ffestri brynhawn dydd Sadwrn, Tachwedd 30ain am 3.00y.p. Agorir yr arwerthiant eleni gan Mr Delmie Jones o Fronwydd ger Caerfyrddin a gynt o Gwylfa. Croeso cynnes i bawb.

Pen-blwydd Arbennig

Gobeithio fod Mrs Brenda Jones, Gwêl-y-Cledlyn wedi mwynhau dathlu ei phen-blwydd arbennig yn ystod y dyddiau diwethaf.

Capel-y-Bryn

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch nos Lun, 7fed o Hydref. Gwasanaethwyd gan Miss Beth Davies, Gorrig. Llywyddwyd gan y parch Wyn Thomas a'r organyddes oedd Mrs Sharon Long.

Yna, cynhaliwyd ein Moes a Phryn blyneddol yn Ffestri Seion, Cwrtnewydd prynhawn Sadwrn, 12fed o Hydref am 3.00y.p. Croesawyd a diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan y Parch Wyn Thomas.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Mair Davies a'r teulu oll, Pantronnen, Blaencwrt ar farwolaeth mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn sef Mrs Diana Jones a oedd yn 98 oed, gynt o Fronwen, Llanarth.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Nesta Evans o Lundain yn ystod y dyddiau diwethaf. Merch Pantycelyn oedd Nesta ac fe aeth i Lundain pan yn ifanc ond roedd ardal Cwrtnewydd yn agos iawn at ei chalon ar hyd yr amser ac fe dderbyniodd CLONC yn fisol drwy'r post am dros 20 mlynedd hyd at ei marwolaeth. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i theulu oll yn eu profedigaeth lem.

Bois y Gilfach

Parti meibion ifanc o ran oed (neu ifanc o ran ysbryd!) yw Bois y Gilfach a sefydlwyd union ddwy flynedd yn ôl pan gafodd rhai ohonynt wahoddiad i ganu yng Ngwesty'r Castell, Aberaeron ar nos Galan. Roedd y criw gwreiddiol yn dod o ardaloedd Mydroilyn, Llanarth, Synod Inn a Dyffryn Aeron yn bennaf, ac ar ôl i bawb gael blas ar y canu a'r cwmni penderfynwyd parhau i gwrdd yn rheolaidd gyda Heledd Williams, Derwen Gam yn arweinydd ac yn gyfeilydd i'r parti.

Ers hynny mae Bois y Gilfach wedi bod yn ymarfer yn gyson yn Nhafarn y Gilfach, Mydroilyn ac wedi bod yn diddanu cynulleidfaoedd mewn cyngherddau a nosweithiau cymdeithasol ar hyd a lled canol a de Ceredigion - gan fentro ymhellach na hynny weithiau hefyd! Mae'r parti yn cynnwys dros ugain o aelodau erbyn hyn sy'n cwrdd yn ffyddlon i ymarfer ar nosweithiau Sul.

Penderfynwyd yn fuan y dylai elusen neu achos da lleol elwa o weithgarwch Bois y Gilfach a phenderfynwyd rhoi elw'r ddwy flynedd gyntaf i Ganolfan y Bont, sef canolfan addysg i blant ag anghenion dwys yn Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan.

Nos Wener 27 Medi 2013, yn ystod cyngerdd i ddathlu agoriad swyddogol Neuadd Goffa Caerwedros, manteisiodd y parti ar y cyfle i gyflwyno £800 i gynrychiolwyr o Ganolfan y Bont, sef Clare Taylor (pennaeth y Ganolfan) a Brian a Neris Owens a'r teulu, Beulah, Castellnewydd Emlyn. Mae Eifion, un o feibion Brian a Neris, yn mynychu'r ganolfan yn ddyddiol ac yn cael budd mawr ohoni.

Ar ddechrau blwyddyn newydd yn hanes y parti daeth yn bryd i Bois y Gilfach ddewis achos da arall i'w gefnogi, a'i nod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yw codi arian i brynu diffibriliwr ar gyfer Neuadd Mydroilyn.

Mae'r parti yn dal i ddenu a chroesawu aelodau newydd sy'n mwynhau canu a chymdeithasu. Felly, os hoffai unrhyw un ymuno â'r criw, cysylltwch â Heledd Williams ar 01545 580888/07989 904799 neu Arwel Jones ar 07811 595014.



Yn y llun: Bois y Gilfach yn cyflwyno sic o £800 i Clare Taylor a Neris ac Eifion Owens o Ganolfan y Bont mewn cyngerdd a gynhaliwyd i ddathlu agor Neuadd Goffa Caerwedros ddiwedd mis Medi.

Sarn Helen



14,000 o redwyr yn gorffen hanner marathon Caerdydd ar ddiwrnod braf o Hydref, a Loitarakwai Lengurisi o Kenya yn torri record y marathon mewn 61 munud 52 eiliad. Llewelyn Lloyd oedd y cyntaf nol o redwyr Sarn Helen 1:20:12, Kevin Regan 1:30:40, Nigel Davies 1:37:47, Paul McDermott 1:38:02, Huw Rowcliff 1:39:11, Caryl Davies 1:41:51, Eleri Rivers 1:45:29, Mitchell Readwin 1:47:18, Kate McDermott 1:47:47, Terry Jones 1:53:52, David Thomas 1:56:09. Yr un diwrnod roedd ras y ddau gopa yn Aberystwyth. Dylan Lewis enillodd y ras 47:11, Glyn Price 48:17, Carwyn Thomas 50:28, Simon Hall 53:19, Calvin Williams 55:03, Tony Hall 56:33, Dee Jolly 1:00:09, Aneurin James 1:03:02, Helen Willoughby 1:05:45.

Ym Mhontypwl oedd cyfres gyntaf traws-gwlad Gwent. Daniel Jones yn gorffen yn 9fed yn ras y bechgyn nofis, a'r 9fed safle hefyd i Beca Roberts yn ras y merched nofis, Grace Page dan 13 yn safle 47, Caitlin Page 6ed a Ffion Quan 10fed yn y ras dan 17/20 merched.

Ras menywod hŷn Caryl Davies yn safle 87 a Elen Page 172.

Glyn Price oedd y cyntaf nol ym Marathon Eryri mewn 3 awr 04 munud a 15 eiliad, Carwyn Thomas 3:42:26, Nigel Davies 3:43, Aneurin James 4:00:52, Eric Rees 4:03:47, Helen Willoughby 4:10:29, Teifion Davies 4:23:26, Haydn Lloyd 4:49:36, Gareth Jones 4:54:32, Ormond Williams 5:43:20. Daeth Helen Willoughby yn ail yng nghategori pencampwriaeth meistr Cymru.

Ras nesaf y clwb yw Ras Y Mast yng nghanolfan gwyliau Blaenwern, Llanybydder; bydd ras y plant am 12.30yp a ras yr oedolion am 1 o'r gloch.

Gyda'r nosweithiau'n ymestyn a'r tywydd yn oeri mae bwrllwm ieuencid ein sir i'w deimlo mewn neuaddau ledled y wlad wrth i ymarferion yr Eisteddfod dynnu at eu terfyn a gydag ambell sosial a chyrddau Diolchgarwch. Cofiwch gefnogi'r Eisteddfod wrth wyllo S4C ar yr 16eg o Dachwedd i weld enillwyr Ceredigion yn Eisteddfod Cymru yn Ynys Môn.

Diwrnod Maes

Cynhaliwyd Diwrnod Maes y Sir ar yr 28ain o Fedi ar safle newydd eleni sef IBERS, Penrhyn-coch. Cafwyd nifer uchel o ymgeiswyr yn y cystadlaethau barnu stoc a dyma'r rhai a ddaeth i'r brig ac a fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Niwrnod Maes Cymru, eto yn IBERS ar y 12fed o Ebrill.

Barnu Stoc Dan 26 oed: 1af ac yn derbyn teitl Stocmon Hŷn y Flwyddyn – Heilin Thomas, Llanwenog; 2il – Enfys Hatcher, Llanwenog; 3ydd – Dion Davies, Pontsian; 4ydd – Geraint Jenkins, Talybont. Tîm: 1af Llanwenog, 2il Pontsian 3ydd Llangwryfon.

Barnu Stoc dan 18 oed: 1af Sian Downes, Llangwryfon; 2il Eiry Williams, Llangwryfon; 3ydd Sioned Fflur Evans, Llanwenog;

Gyrru Tractor a Loader: 1af Emyr Evans Felinfach, 2il Richard Downes Llangwryfon, 3ydd Rhodri Davies Pontsian.

Sialens ATV: 1af Richard a Rhys Talybont, 2il Gruff a Gareth Mydroilyn, 3ydd Rhodri a Rhydian Troedraur.

Diogelwch Car – Sialens 'Drive it Home': Carwyn a Sophie, Llanwenog;

Adnabod Planhigion: Cydradd 1af Llangwryfon, Llanddeiniol, Llanddewi Brefi, Caerweddros a Phenparc.

Ffensio: 1af Llanddeiniol Canlyniadau Terfynol: 1af Llanwenog; 2il Llanddewi Brefi

Cyfarfod Cyffredinol CFFI Cymru

Teithiodd dros hanner cant o aelodau'r sir i benwythnos Glas CFFI Cymru ddechrau mis Hydref ac yng nghanol yr holl gymdeithasu cafwyd oriau o gyfarfodydd hefyd. Bore ddydd Sadwrn cynhaliwyd CCB Cymru gyda Kate Miles o Forgannwg yn cael ei hethol yn Gadeirydd y mudiad ac Iwan Meirion, cyn-aelod o Ffederasiwn Meirionnydd sydd bellach yn byw yng Nghapel Bangor yn Is-Gadeirydd. Yn y prynhawn cynhaliwyd yr is-bwyllgorau ac



4ydd Sioned Evans, Llanddewi Brefi. Tîm: 1af Llanwenog 2il Llangwryfon 3ydd Llangwryfon.

Barnu Stoc dan 14 oed: 1af Rhys Davies, Llanwenog; 2il Twm Ebbsworth, Llanwenog; 3ydd Rebecca James, Llanddewi Brefi; 4ydd Alaw Rees, Mydroilyn. Tîm: 1af Llanwenog, cydradd 2il Mydroilyn a Thalybont.

Arddangosfa Ciwb: 1af Llanwenog, 2il Troedraur, 3ydd Llangwryfon

Trimio Oen: 1af Sian Downes Llangwryfon, 2il Emyr Davies Llanddewi Brefi, 3ydd Dafydd James Bryngwyn.

am y tro cyntaf mi gynhaliwyd y system newydd o weithredu gyda deg is-bwyllgor yn cyfarfod. Llongyfarchiadau i'r canlynol o Geredigion ar gael eu hethol yn swyddogion y pwyllgorau;

Gwennan Davies – Cadeirydd Pwyllgor Cystadlaethau Einir Ryder – Cadeirydd Pwyllgor Lles Aelodau

Enfys Hatcher – Is-Gadeirydd Pwyllgor Marchnata

Llion Davies – Is-Gadeirydd Pwyllgor Cyllid

Mererid Davies – Ysgrifennydd Cofnodion Pwyllgor Cystadlaethau Gorffennwyd y penwythnos fore



Cymanfa Ganu Swyddogion 2012-2013

Yn ystod CCB y Sir yn Neuadd Dihewyd ym mis Medi trosglwyddwyd siec am £719.20 gan gyn-frenhines y sir Gwennan Davies, cyn-ffermwr ifanc y sir Llion Davies a'r morynion i Enfys Davies, sef arweinydd Tîm Ymateb Aciwt Ceredigion.

dydd Sul gyda chyfarfod Cyngor CFFI Cymru. Trosglwyddodd Gwenno Griffith, cyn-gadeirydd Cymru siec am dros £25,498.22 i gronfa Sefydliad y Galon ar ran CFFI Cymru. Codwyd yr arian drwy sialens deuddeg copa Cymru.

Noson i aelodau dan 18 a thros 18 oed

Cynhaliwyd noson i aelodau dan 18 oed y Sir ar y 7fed o Hydref gyda Sosial yn Neuadd Pontsian i glybiau de'r Sir a noson o Rasys Moch yn Neuadd Tregaron i'r rhai yng ngogledd y Sir. Roedd hyn yn gyfle iddynt gymdeithasu a dod i adnabod ei gilydd. Tyrrodd dros 150 o aelodau iau'r Sir i'r digwyddiad yma. Edrychwn ymlaen at ddigwyddiad tebyg ar y 27ain o Ionawr.

Roedd cyfle hefyd i aelodau dros 18 oed y Sir ymlacio a chymdeithasu mewn awyrgylch mwy anffurfiol. Aeth aelodau hŷn Llangwryfon a Thregaron i noson gwis yng nghlwb rygbi Tregaron ac aeth clybiau Pontsian a Llanwenog i gymdeithasu a rhoi'r byd yn ei le dros bryd o fwyd yn Nhafarn Bach!

Swper y Swyddogion

Daeth Swyddogion newydd y Sir at ei gilydd yn ystod mis Hydref er mwyn trin a thrafod eu dyheadau. Cafwyd amryw o sgysiau diddorol a rhoddwyd nifer o argymhellion gerbron y Cadeirydd newydd, Einir Ryder. Erbyn hyn mae carden y CFFI yn cynnig gostyngiadau arbennig i aelodau'r sir ac i aelodau cyswllt yn y llefydd canlynol:

10% oddi ar ddillad Lan Lofft, Llanbedr Pont Steffan

5% o ddisgownt yn Awen Teifi, Aberteifi.

Can o bop am ddim os ydych yn gwario dros £3.00 yn Llond Plat, Aberaeron.

A gobeithio erbyn y rhifyn nesaf y bydd dau fusnes arall gyda ni i'w cyhoeddi!

Gall unrhyw un ddod yn aelod cyswllt, dim ond ichi dalu £10.00 i'r Sir ac yna cewch fwynhau'r gostyngiadau yma ynghyd â phris gostyngedig i gystadlaethau'r sir a chopi o Ar Ddan drwy'r post! Bydd y wefan newydd yn cael ei lansio yn yr Eisteddfod; soniwyd am greu fideo hyrwyddo modern, cael ffotograffydd a fideograffydd (aelod neu swyddog) ar gyfer pob digwyddiad a chafwyd trafodaeth hir ynglŷn â sut y gallwn ddenu mwy o aelodau i ymuno â ni.

Clwb 200

1af – Arthur ac Annette Morgan; 2il – CFFI Dihewyd; 3ydd – Sion Jenkins, Cathal.

Digwyddiadau

10fed o Dachwedd – Cyfeliadau Teithiau Tramor CFFI Cymru

13eg o Dachwedd – Hyfforddiant Barnu Carcas

16eg o Dachwedd – Eisteddfod CFFI Cymru – Ynys Môn

21ain o Dachwedd – Cwis y Sir

24ain o Dachwedd – Siarad Cyhoeddus Saesneg – Campws Theatr Felinfach

2il a 3ydd o Ragfyr – Ffair Aeaf, Llanelwedd

Rhifyn Rhagfyr

Yn y Siopau Rhagfyr 5ed

Erthyglau,
Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Tachwedd 25ain

Drefach a Llanwenog

Eglwys Santes Gwenog

Ar y 7fed o Hydref daeth nifer dda o aelodau a ffrindiau i wasanaeth Cwrdd Diolchgarwch. Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn gan ein ficer gwadd, sef y Parch Bonnie Timothy. Bu'r plant wrth eu boddau yn rhannu bara a melysfwd a oedd wedi eu coginio gan Ficer Bonnie ymysg y gynulleidfa. Mrs Pauline Roberts Jones oedd yr organyddes. Wedi'r oedfa mwynhawyd swper blasus iawn yn yr eglwys fach. Talwyd diolchiadau gan ein ficer Y Parch Suzy Bale, yn gyntaf i'r ficer gwadd am ei hanerchiad tymhorol; i wragedd yr eglwys am swper bendigedig, ac i bawb am eu cefnogaeth. Roedd y cyfan yn creu noson hapus a chymdeithasol. Diolch hefyd i'r gwragedd a phawb a gyfrannodd flodau a llysiau i addurno'r eglwys mewn ffordd mor gelfydd a thymhorol.

Yn dilyn cyfarfod y P.C.C. ar yr 16eg o Hydref, fe drefnwyd y canlynol. Hydref 18fed Noson 'Bingo' yn Nhafarn Cefn Hafod, trwy garedigrwydd Mr a Mrs Geraint Hatcher. Daeth tyrfâ dda ynghyd i'r digwyddiad hwnnw ac fe wnaed elw o £390. Talwyd y diolchiadau gan ein ficer. Noson boblogaidd arall fydd 'Noson Cwblhau'r Chwilen' (Beetle Drive) yn yr eglwys fach am 7 yr hwyr ar y 15fed o Dachwedd, pris mynediad £3. yn cynnwys te/coffi a chacenau. Rhagor o ddigwyddiadau yn rhifyn nesaf 'Clone'.

Teimlwyd ei bod yn angenrheidiol cael canllaw metal ar y wal sy'n arwain o'r iet ger porth yr eglwys at brif fynedfa'r eglwys. Cafwyd amcan bris o £2,000. Penderfynwyd aros am ymateb pellach cyn y cyfarfod nesaf. Braf yw clywed fod Mrs Hazel Thomas, Penbontbren a Mr Jim Evans, Frowen wedi dychwelyd i'w cartrefi ar ôl derbyn llawdriniaethau. Dymunwn wellhad parhaol i'r ddau ohonoch. Ein cydymdeimlad â'r teuluoedd sydd wedi colli eu hanwyliad yn ddiweddar, sef Leighton Tudor Williams, Penffordd gynt.

Ein llongyfarchiadau i Rhian Thomas, Llechwedd a Leighton Daniels ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

CLWB 100 Medi.

1. Alan Mellor, Rhiwson isaf
2. Daniel Thomas, Ffosffald Uchaf
3. Jean Davies, Hafod y Gân, Llanybydder.

Y Gymdeithas Hŷn

Siomedig oedd rhif yr aelodau a ddaeth i Gapel Bethel Drefach ar gyfer cyfarfod agoriadol tymor y gaeaf ar y 9fed o fis Hydref. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan chwech o'r aelodau, a chroesawyd pawb oedd wedi dod gan Dilwen George, y Cadeirydd.

Roedd Dilwen George wedi colli ei chwaer-yng-nghyfraith y ddiweddar ac estynnwyd cydymdeimlad ati.

Dymunwyd yn dda i Annie Bowen, sydd wedi dychwelyd i Hafan Deg wedi cyfnod yn yr ysbyty ar ôl torri ei choes. Gwellhad buan hefyd i Jim Evans oedd yn yr ysbyty ar y pryd, ac i Irene Jones sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod yr haf, ac yna wedi cael damwain ar ôl dod adre. Roedd pawb yn falch gweld Jean Evans, Llwynygog gyda ni ar ôl iddi gael llawdriniaeth fawr dros yr haf a chyfnod pellach yn yr ysbyty wedi hynny.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan yr ysgrifennydd; nid oedd unrhyw fater yn codi ohonynt.

Aed ymlaen at y Cyfarfod Blyneddol. Ail-etholwyd y swyddogion am y tymor newydd yn unfrydol a threfnwyd lleoliadau cyfarfodydd y gaeaf ynghyd â chael enwau siaradwyr. Rhoddodd Brenda Jones, y Trysorydd adroddiad ariannol manwl am y flwyddyn a darllenwyd rhestr yr aelodau oedd wedi derbyn cardiau gwellhad neu gydymdeimlad drwy law Nanna Jones. Diolchwyd i'r swyddogion i gyd am eu gwaith gan y Cadeirydd.

Wedi cwblhau busnes y Cyfarfod Blyneddol, mwynhawyd lluniaeth wedi ei baratoi gan chwirydd Capel Bethel a diolchwyd yn gynnes iddynt gan Eifion Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf dydd Mercher, Tachwedd 13eg am 1.30 ym yn Eglwys Llanwenog pan fydd y Parchedig Bill Fillery yn siarad am y cerfiadau ar feinciau'r eglwys a'r hanes a roddodd fodolaeth iddynt.

CFFI Llanwenog

Bu nifer fawr o aelodau'r clwb yn cystadlu yn Niwrnod Maes y Sir yn Ibers, Aberystwyth. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda'r gwobrau cyntaf yn llifo. Dyma'r canlyniadau

Barnu Stoc - Dan 26 oed - Heilin Thomas yn ennill Stocmon Hŷn y Flwyddyn, llongyfarchiadau mawr i ti Heilin a thithau ar dy flwyddyn olaf. Enfys Hatcher - 2il, da iawn ti a thithau yn cystadlu am y tro cyntaf erioed yn y Barnu Stoc. Menna Williams yn 9fed a'r tîm oedd yn cynnwys Cerys Lloyd yn gyntaf.

Dan 18 oed - Sioned Fflur Evans yn 3ydd fel unigolyn a'r tîm oedd yn cynnwys Guto Jones, Steffan Jenkins a Daniel Morgans yn 1af. Daeth y pedwar unigolyn ymhlith y deg stocmon gorau yn y gystadleuaeth.

Dan 14 oed - Rhys Davies yn 1af yn yr unigolion, da iawn ti am sgorio 100% yn barnu da tew, Twm Ebbsworth yn 2il, Gethin Morgans yn 5ed a Tomos Evans yn 10fed. Daeth y tîm oedd yn cynnwys Ffion Jenkins yn 1af.

Drive it home - Carwyn Davies a Sophie Jones - 1af. Ciwb - Menna



Ysgol Llanwenog

Ras Hwyl Llanwenog

Cynhaliwyd ein Ras Hwyl blyneddol fore dydd Sul, Hydref 13eg.

Noddwyd y cystadlaethau gan Alec Page, Gof, Llambled a Huw Price, Peintiwr, Drefach. Diolch yn fawr i chi eich dau.

Dyma'r canlyniadau: Bechgyn 4 - 7 oed - 1. Llyr Rees. 2. Florean Van Ostade. 3. Rhodri Gregson. Merched 4 - 7 oed - 1. Sara Davies. 2. Hannah Ayonoadu. 3. Elen Morgan. Bechgyn 8 - 11 oed - 1. Daniel Jones. 2. Jamie Thomas. 3. Luke Thomas. Merched 8 - 11 oed - 1. Catrin Schröder. 2. Molly Greenfield. 3. Sara Thomas. Bechgyn 12 - 16 oed - 1. Thomas Willoughby. 2. Daniel Willoughby. 3. Tomos Evans. Merched 12 - 16 oed - 1. Grace Page. 2. Naomi Howell. 3. Gwen Thomas. Menywod 16 - 34 oed - 1. Dee Jolly. 2. Gemma Hope. 3. Rebecca Davies. Menywod 35 - 44 oed - Elizabeth Tremlett. Menywod 45 oed a throsodd - Dawn Kenwright. Dynion 16 - 39 oed - 1. Carwyn Thomas. 2. Kevin Regan. Dynion 40 - 49 oed - 1. Glyn Price. 2. Nigel Davies. 3. Eric Rees. Dynion 50 oed a throsodd - 1. Tony Hall. 2. Paul McDermott. 3. Huw Price.

Williams, Luned Mair, Enfys Hatcher, Meinir Davies a Carwyn Davies - 1af

C.F.F.I Llanwenog oedd yn fuddugol ddiwedd y prynhawn. Llongyfarchiadau mawr i bawb a phob lwc i bob aelod a fydd yn cynrychioli Ceredigion nes ymlaen ym mlwyddyn y C.F.F.I.

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Peter Jenkins yn sôn am wenyn a mêl. Dysgon lawer am fywyd y wenynen. Diolch iddo am roi o'i amser.

Braf oedd cael cwrdd ag aelodau dan 18 eraill y sir am noson o gymdeithasu a joio yn neuadd Pontsian.

Croesawyd C.F.F.I Llanddewi Brefi aton ni am noswaith o sosial yn Ysgol Cwrtnewydd. Cafwyd noson llawn hwyl a sbri gyda chadeiryddes y sir, Einir Ryder yng ngofal y noson. Diolch am wneud yn noson

yn un mor hwylus.

Cynhaliwyd ein cwrdd diolchgarwch eleni yng Nghapel Cwmsychpant, a diolch i'r aelodau am ei ddefnydd. Rhoddodd Cerys Lloyd groeso cynnes i bawb a chyhoeddodd yr emyn cyntaf. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Parchedig Cen Llwyd; cafwyd ddarllenïad gan Carwyn Davies; cyhoeddwyd yr emynau gan Menna Williams, Sioned Fflur Evans a Gethin Hatcher.

Cafodd yr holl roddion o ffrwythau a llysiau eu rhoi i Gartref Maesyfelin, Drefach.

Byddwn yn cynnal ein Cyngerdd Pigion yr Eisteddfod nos Iau, Tachwedd 7fed am 7.30y.h yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd. Croeso cynnes i bawb.

Drefach a Llanwenog

Sefydliad y Merched

Mae Sefydliad y Merched Llanwenog yn dal i fod mor brysur ag erioed. Dechrau mis Hydref roedd y Caban yn yr ysgol dan ei sang gyda Hayley Addison yn dangos sut i wneud 'torch' o ddefnydd. Roedd amrywiaeth o dorchau hyfryd erbyn diwedd y nos ond roedd un neu ddwy o'r aelodau wedi meddwl ymlaen ac wedi creu torch o ddefnydd Nadoligaidd.

Cynhelir y cyfarfodydd ar ddydd Iau cyntaf y mis yn yr ysgol ac un anffurfiol ar y dydd Iau canlynol am 10.30 y bore yn yr 'Hedyn Mwstard'. Ceir cyfle yma i fwynhau coffi a chacen a chlonc. Yn ogystal, cynhelir taith gerdded bob mis. Cafwyd tripiâu diddorol i Gastell Cydweli; Sain Ffagan; Cadeirlan Tŷ Ddewi a Llancaiaich Fawr. Byddwn yn ymweld â Ffair Nadolig y mis nesaf.

Er bod gennym nifer fawr o aelodau, prin yw'r Cymry Cymraeg, felly estynnwn groeso cynnes iawn i aelodau newydd.

Danfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Annie Bowen, sydd wedi treulio cyfnod yn Hafan Deg wedi iddi dorri ei choes. Erbyn hyn mae wedi mynd at ei merch, Eirlys, yng nghyffiniau Caerdydd er mwyn cryfhau cyn dychwelyd i'w chartref.

Diolch

Diolch i bawb a gynorthwyodd ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y noson caws a gwin a gynhaliwyd yn Bryntawel, Drefach ar Hydref 4ydd. Codwyd £2,211.00 tuag at apêl Nyrsys MacMillan.

Dymuna Martha, Cartref Maesyfelin ond gynt o Barc Thomas, Caerfyrddin ddiolch i'w pherthnasau a ffrindiau am bob cydymdeimlad a ddangoswyd iddi ar golli ei phriod annwyl, Moelwyn. Mae'r cyfan oll wedi bod yn gysur mawr.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhian ac Andrew, Abertegan ar enedigaeth merch fach, Gwenllian Megan, chwaer fach i Angharad Mair. Wyres fach hefyd i Gill a Daff, Brynteg Cottage. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Ysgol Llanwenog

Yn ystod y tymor bu plant y Cyfnod Sylfaen ar ymweliad ag Ysgol Bro Pedr i fwynhau perfformiad Sbri di-ri. Ymunodd pawb yn frwdfrydig yn yr hwyl gyda Gwenda Owen.

Yn hwyrach yn y tymor cynhaliwyd Ras Hwyl flynyddol Ysgol Llanwenog a drefnir gan y Gymdeithas Rien. Bu'r diwrnod yn llwyddiant mawr a diolch yn

arbennig i Mrs Heulwen Jones am ei gwaith wrth gydlyn trefniant y diwrnod. Diolch hefyd i'r noddwyr sef Alec Page a Huw Price, bu'r ddau yn brysur yn ystod y prynhawn yn cyflwyno gwobrau i'r buddugwyr. Hoffem ddiolch hefyd i Simon Hall am roddi'r byrgys blasus ac i Gary Watkins am fenthyg yr offer barbeciw. Trefnwyd raffl gan y Cyngor Ysgol a chodwyd cant a deuddeg o bunnoedd. Yn sgil hyn ysgrifennodd Hafwen Davies a Molly Greenfield at y gymdeithas yn holi am gyfraniad pellach. Bu'r gymdeithas rieni yn hael wrth nodd i punt am bunt iddynt. Bellach mae gan y Cyngor Ysgol ddau gant dau-ddeg pedwar o bunnoedd i wario ar offer chwarae amser egwyl.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol yn ddiweddar yn Eglwys Santes Gwenog. Cafwyd eitemau graenus gan bawb a chafodd pob disgybl gyfle i berfformio. Diolch yn fawr iawn i'r Ficer Suzy Bale am ei hanerchiad diddorol. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno yn fendigedig gan y chworiydd. Hoffem ddiolch hefyd i Mrs Mary Thomas am ganu'r organ yn ystod y gwasanaeth. Rhoddwyd y ffrwythau a'r llysiau a dderbyniwyd gan y plant i gartrefi Maes y Felin a Chwm Aur.

Hoffem groesawu aelodau staff newydd i'r ysgol sef Mrs Mineira Edwards a fydd yn gweithio yn y Cyfnod Sylfaen ac yng ngofal y Clwb Brecwast. Croeso hefyd i Lorna Davies a fydd hefyd yn cynorthwyo yn y Clwb Brecwast. Gobeithiwn y byddant yn hapus iawn yn eu swyddi newydd.

Diolch i Mrs Enfys Morgan am gynrychioli'r Ysgol ar daith i Dde Ffrainc. Bu'n ymweld ag ysgol sy'n bartner ac sy'n cydweithio â ni yn y prosiect Comeniws. Cafwyd ymateb hynod o dda gan y plant i'r apêl 'Romania Aid'. Llanwyd a danfonwyd dros dri deg o focsys ar gyfer yr Apêl gwerthfawr hwn. Diolch i bawb a gyfrannodd. Yn ystod y tymor cynhaliwyd nifer o weithgareddau diddorol yn y Clwb Hwyl. Bu Rhydian o'r Urdd yn cynnal noson hwyliog o chwaraeon a threfnodd Mrs Eirlys Jones Noson o Hwyl Calan Gaeaf ar gyfer y plant. Diolch i'r ddau ohonynt.

Cellan

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Dafydd a Delyth Jones, Ffosyffin ar ddathlu eu Priodas Ruddem ddiwedd mis Hydref. Iechyd da i chwi am flynyddoedd eto.

O'r Cynulliad gan Elin Jones



Mae dechrau tymor newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sicr wedi bod yn gofiadwy – ond nid o reidrydd am y rhesymau cywir! Sôn wyf i, wrth gwrs, am y ddwy ergyd i Geredigion sydd wedi hoelio fy sylw i a'r Cynulliad. I ddechrau, cyhoeddiad Arriva fod y cwmni am atal ei wasanaethau bws ym mis Rhagfyr, ac yna trafferthion Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Gan ddechrau gydag iechyd, waeth beth fo 'sbin' Bwrdd Hywel Dda, mae'n ddigon amlwg fod yna broblemau gyda'r modd y mae'r Bwrdd yn cael ei weinyddu. Prinder staff oedd yr esgus am dorri nifer y gwelyau ym Mronglais, a pharatoi at y gaeaf oedd y rheswm a roddasant dros ohirio llawdriniaeth orthopaedig. Ond siawns nad ydy newid y tymhorau yn dod fel syndod iddynt, ac hefyd mae digon o straeon am arafwch yn y broses recriwtio nyrsys sy'n peri i rywun i amau mai gwendidau rheoli sydd ar fai. Mae'n annerbyniol bod llawfeddygon nawr am fod yn segur dros y gaeaf tra fod pobl mewn poen yn disgwyl am eu triniaeth. Rwyf wedi galw am ymchwiliad llawn i weinyddiaeth y Bwrdd, a byddaf yn parhau i bwysu ar y Llywodraeth i gael atebion.

O ran bysiau, rwy'n gwybod fod llawer o waith caled yn digwydd y tu ôl i'r llenni i sicrhau y bydd cwmnïau lleol yn medru camu i'r bwlch lle bu gwasanaethau Arriva. Mae'r gwasanaethau yma yn hanfodol wrth gwrs i nifer o ardaloedd yng Ngheredigion, ac yn gyswllt pwysig gyda'r rhwydwaith drafndiaeth ehangach. Cefais sawl cyfarfod ar y mater gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth ac aelodau o'r Cyngor Sir. Mae angen rhywfaint o gymorth-dal i sicrhau fod y gwasanaethau yn parhau ar ddiwedd Rhagfyr, ond yn y tymor hir mae cyfle yma i gael rhwydwaith fysiau mwy strategol a threfnus.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, hoffwn ddiolch i'r busnesau a ymatebodd i'm holiadur ar gyflwr y diwydiant twristiaeth. Ymddengys fod 2013 wedi bod yn flwyddyn dda ar y cyfan, ond mae mwy y gallwn ei wneud i hybu Ceredigion. Roedd yn bleser gwahodd rhai cannoedd o bobl i'r ardal yn sgil cynhadledd Plaid Cymru ddechrau Hydref, ac edrychaf ymlaen at gyfres newydd Y Gwyll ar S4C yn dangos Ceredigion i'r byd.

Cwmann



Llun o dîm Trawsgwlad Ysgol Carreg Hirfaen a fu'n llwyddiannus ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Rhagor o fanylion o dan adroddiad yr ysgol.

Alltyblaca

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Kevin Lewis, 1 Bro Teifi ei ben-blwydd yn 50 oed yn ystod mis Hydref. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu!

Cneifio yn Seland Newydd

Ers canol mis Hydref mae Siôn Lewis, 1 Bro Teifi a Steffan Jenkins, Tyllwyd, Llambod wedi mynd allan i gneifio yn Seland Newydd. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

Cancer Research UK

Noson gyda Clive Edwards

Yng Nglwb Rygbi Llanybydder

7 Rhagfyr 2013 am 7.30yh

Tocyn £8-00

Oddi wrth : Golden Scissors, Susan 480 768, Ann 423 692 neu Jennie 422 625

Ysgol Bro Pedr

Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont

Campws Iau

Daeth ymwelydd enwog iawn i'r campws iau sef Gwenan Gibbard, y delynores a'r gantores enwog. Cafwyd orig ddifyr iawn yn ei chwmmi. Bu'n canu'r delyn a chanu cerdd dant ac yn dysgu alawon newydd i'r plant. Mae rhyw ddwsin o ddisgyblion o'r ysgol wedi dechrau derbyn gwersi telyn yn ystod y tymor a gobeithio y bydd yr ymweliad yma'n sbardun iddynt wrth ddechrau dysgu. Diolch i Mrs Morgan am drefnu.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 y fraint o gael ymweld â bws Gsus a fu yn yr ysgol yn ddiweddar a diolch i Janet Hawkins a'r tîm o gynorthwyr a fu'n trefnu. Roedd yn fuddiol tu hwnt a chafodd y disgyblion gyfle i fynegi barn am sefyllfaoedd a materion yn ymwneud â Maddeuant, Ofn a Gwrthod a hynny ar sgrin cyfrifiadur.

Bu holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen o'r Meithrin hyd at flwyddyn 2 yn y Campws hyn i ymuno â Gwenda Owen wrth iddi arwain Sbri-diri'r Urdd. Cafodd y plant gyfle i ganu a dawnsio ac i gael cyfarfod â chymeriadau megis Sali Mali a Mr Urdd. Roedd yn brynhawn hyfryd a diolch i Eleri a'i thîm am drefnu.

Bu disgyblion blynyddoedd 3 a 4 ar drip i Gastell Henllys yn rhan o thema'r tymor sef y Celtiaid. Llwyddwyd yn ystod y daith i ddod â'r cyfnod hanesyddol yma yn fyw i'r plant. Diolch i Mrs Costello am drefnu ac i'r staff i gyd am eu gofal a'u paratodau.

Gwnaeth disgyblion blynyddoedd 1 a 2 fwynhau trip addysgiadol i'r amgueddfa deganau a'r amgueddfa wllan yn rhan o thema Cornerstones. Diolch i Mrs Young am drefnu ac i'r staff i gyd am eu gwaith.

Ar ddiwrnod T Llew Jones bu disgyblion yr ysgol yn darllen storïau o'i waith ac yn gwneud gweithgareddau amrywiol yn seiliedig ar y cynnwys. Mae disgyblion y Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn parhau i frwsio dannedd yn yr ysgol o dan Gynllun Gwên Ceredigion.

Ysgol Bro Pedr - Hyn



sir yn gwneud gweithgareddau hwyl fel dawnsio a chwarae drymiau. Yn ddiweddar, aeth y criw i ymweld â Co-op Llanbed, sy'n gwerthu llawer o nwyddau masnach deg ac yn cefnogi ffermwyr mewn gwledydd Llai Datblygedig yn Economaidd a chyn hir byddant yn cymryd rhan mewn cyfweiliad fideo gyda ffarmwr coco yn Ghana.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar y 23ain o Fedi ac yn ystod y sesiwn chwaraewyd gêm o fingo. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw. Ers hynny, mae'r arweinwyr wedi cynnal tair sesiwn arall, gan gynnwys Gemau Pêl ar y 30 o Fedi, Disgo gyda gêmiau megis 'delwau llonydd' a 'musical chairs' ar y seithfed o Hydref. Ar Hydref y



Y Ficer Chris Webb gydag aelodau o gôr yr ysgol yn ystod Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Bro Pedr. Diolch i'r Ficer am ddod atom ac i gôr yr ysgol am eu cyfraniad dan gyfarwyddyd Mrs A. Morgs a Miss S. Davies yn cyfeilio.



Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu yn nhwrnament rygbi Sirol yr Urdd dan gyfarwyddyd Mr Roderick a Mr Thomas. Llongyfarchiadau iddynt am chwarae mor dda ac am gyrraedd y rownd gynderfynol. Da iawn chi, bois – Caiyo, Jac, Kyle, Owen H, Owen R, Owain, Dion, George a Nathan.

Mae Masnach Deg Cymru yn datblygu prosiect ar hyn o bryd gyda help y Co-op a fydd yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr Masnach Deg siarad â phobl ifanc yn uniongyrchol am faterion sy'n effeithio eu bywoliaeth a'u cymdeithas. Y gobaith yw creu adnodd ar-lein y gall ysgolion ar draws y wlad ei ddefnyddio. Mae'r ysgol wedi ei dewis fel un o blith 12 ysgol ar draws Cymru i gymryd rhan yn y prosiect; bydd y sgysiau rhwng y disgyblion a'r ffermwyr yn cael eu recordio a'u gosod ar wefan Masnach Deg Cymru. Ddydd Mawrth Medi'r 24, yn rhan o'r prosiect, daeth Emmanuel o Ghana i'r ysgol i siarad â rhai o'r disgyblion am ei wlad. Treuliodd y dosbarth Daearyddiaeth y ddwy wers gyntaf yn y neuadd gydag Emanuel a Polly Seton o'r

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Toriad Taclus

Heol Caerfyrddin
Llanbydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmmi Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cynnog a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174



Bore dydd Mawrth, Hydref 1af cynhaliodd disgyblion blwyddyn 10, dan ofalaeth Mr Mark Davies, fore coffi i godi arian at elusen Cŵn Tywys Cymru. Yn ystod y bore cynhaliwyd gwasanaeth arbennig dan ofal 10 Dewi a Mr Davies, lle siaradodd Mrs Rory Roberts am ei phrofiadau yn berchennog ci tywys. Cyflwynodd i'r gynulleidfa ei chi tywys newydd Nutmeg, a'i chi tywys blaenorol Tilly, sydd bellach wedi ymddeol. Dangosodd luniau o Nutmeg yn ei harwain trwy strydoedd prysur Castell Newydd Emlyn hefyd. Ar ôl y gwasanaeth arweiniwyd Rory, ei phartner Simon a'r cŵn i Ganolfan y Bont i ymweld â'r staff a'r disgyblion, lle cawsant groeso mawr. Codwyd swm arbennig o £788.50 yn ystod y bore. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd rhan wrth ddod â chacennau a rhoi o'u hamser, yn arbennig i Caryl Jacob am gynnig elusen mor haeddiannol ac i bawb a brynodd yn ystod y bore.

14eg cynhaliwyd sesiwn o 'bêl-osgoi', a'r enillwyr oedd Kaylie, Iestyn a Rhys. Hoffwn ddiolch i'r disgyblion canlynol o flwyddyn 12 am drefnu a chynnal clwb mor boblogaidd. Carys Jones, Gethin Morgan, Sulwen Richards, Melissa Davies, Lowri Jones, Mirain Thomas, Shannon Evans, Betsan Evans & Sophie Jones. Da iawn chi!

Ym mis Medi eleni, cafwyd llawer o hwyl yng Nghanolfan Gweithgaredd Llain gyda chriw Ymarfer Corff TGAU Blwyddyn 10. Bu cyfle i weithio fel tîm wrth ddysgu dringo a defnyddio caia.

Llongyfarchiadau mawr i Scot Janes ar ei holl lwyddiannau ym maes marchogaeth dros y flwyddyn. Daeth yn gyntaf mewn cystadleuaeth yn y Ffair Aeaf ac yn drydydd mewn cystadleuaeth yn y Sioe Frenhinol. Daeth yn 8fed, a'r tîm yn ail, wrth iddo gynrychioli Cymru yn y treithlon (saethu, nofio, rhedeg a marchogaeth) yn Nyfnaint yn ddiweddar. Mae Scot yn cystadlu mewn cystadlaethau yng Nghanolfan Marchogaeth Bannau Brycheiniog bob penwythnos ac yn cystadlu yn Cricklands unwaith bob pythefnos lle mae'n cael lawer o lwyddiant. Pob lwc i ti yn y dyfodol, Scot.

Llongyfarchiadau mawr i Christopher Barker a Caleb Davis o Flwyddyn 12 ar eu perfformiadau ardderchog yng nghystadlaethau Dadlau CEWC Cymru a gynhaliwyd ar 3 Hydref yn Ysgol Syr Thomas Picton, Hwlfordd. Daeth tîm Ysgol Bro Pedr yn ail o blith chwech yn y gystadlaeth heriol yma ac enillodd Christopher Barker wobwr y siaradwr gorau. Roedd y bechgyn yn dadlau'r pwnc y dylid cynyddu nifer y meysydd awyr sydd gyda ni er mwyn hybu'r economi.



Bydd Christopher yn mynd ymlaen i gystadlu yn rownd nesaf y gystadleuaeth yng Nghaerdydd ddechrau mis Rhagfyr. Os bydd Christopher yn llwyddiannus bryd hynny, bydd ganddo'r cyfle i fod yn aelod o dîm dadlau Cymru.



Llongyfarchiadau mawr i Charlotte Saunders, Naomi Davies a Rebecca Harrison sydd wedi cael eu dewis i chwarae i dîm pêl-droed Gorllewin Cymru. Da iawn chi ferched.



Mae'r tymor newydd wedi bod yn un prysur i'r chweched gyda diwrnod ymdrwytho llwyddiannus iawn ym mhrifysgol y Drindod Dewi Sant ar Fedi'r 4ydd, sesiwn cryfhau gwaith tîm yn Llain yng nghanol y mwd, a llawer mwy.



Yn ddiweddar, bu disgyblion bl.12 i gyd yn brysur yn darganfod mwy am sgiliau mentergarwch mewn gweithdy a gynhaliwyd gan Liz James o Base Wales. Bu rhaid iddynt sefydlu a rhedeg eu busnes eu hunain yn ogystal â chwarae rôl rheolwyr. O ganlyniad, gwelwyd sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu'r disgyblion yn amlygu eu hunain yn ogystal â'u gallu i ddatrys problem. Cafwyd cyflwyniadau diddorol iawn gan y disgyblion ar y diwedd. Diolch i Liz James a Iona Jones o Yrfa Cymru am eu cymorth a'u cyngor.

Sefydliad y Merched Coedmor

Ar y 7fed o Hydref cynhaliwyd Cinio Blynnyddol y Gangen yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen.

Croesawodd Morfudd Slaymaker bawb i'r noson ac ar ôl y bwyd cyflwynodd ein gŵr gwadd sef Michael Morgan o Ystrad Aeron a fu'n ein diddanu drwy adrodd hanes ei yrfa yn ffatrïoedd llaeth Felinfach, a Llangadog. Mae ganddo ddiddordeb mewn casglu hen fuddeiau llaeth a buddeiau corddi a bu'n dangos lluniau o'i gasgliad eang ynghyd â lluniau o'r ffatrïoedd yn Felinfach, Llanio a Llangadog.

Diolchodd Elma Phillips i Michael am noson hwylus a diddorol.

Cafwyd cyfarfod byr a darllenwyd carden o gydymdeimlad gan Ysgrifenyddes y Sir yn dilyn marwolaeth Ann Lewis, un o'n haelodau.

Llongyfarchwyd Helena Gregson ar ddod yn fam-gu i Sebastian.

Estynnodd Morfudd ddiolch i Siriol a'r staff am bryd o fwyd blasus iawn a'r gwasanaeth da. Diolchodd hefyd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cyfraniad dros y flwyddyn.

Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Meirianwen Jones-Williams, Cysgod y Pin yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llandochoau, Caerdydd yn ddiweddar.

Gobeithio y byddi 'nol ar dy draed yn glou.

Ysgol Carreg Hirfaen

Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol a gafodd lwyddiant yn Ffair Ram a Sioe Cao a Llanycrwys yn ddiweddar.

Bu tîm traws-gwlad yr ysgol yn llwyddiannus tu hwnt ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin ddiwedd mis Medi. Roedd dros gant o blant ym mhob ras. Cafwyd llwyddiant ym mlwyddyn 3 gydag Osian Elis Roberts yn bedwerydd a Gwenllian Llwyd yn wythfed. Yn ras bl. 4 daeth Sion Aled Evans yn ddegfed, Seren James yn fuddugol gan gipio'r wobr gyntaf a Mali Jones yn drydydd. Gyda rhedwyr cryf ym mlwyddyn 6, cafodd y merched lwyddiant arbennig, gyda Beca Mai Roberts yn cipio'r safle cyntaf a Beca Ann Jones yn cipio'r pedwerydd safle. Rhedodd Lowri Aur ras wych a llwyddodd y tair i ennill yr ail safle fel tîm. Cipiodd Daniel Ifan y pedwerydd safle a daeth Llywelyn James yn seithfed. Hefyd yn llwyddo i orffen y ras mewn amser gwyh roedd Jessica Jones, Elen Jones, Owen Harrison, Sion Harry, Iestyn Plant, Dafydd Jones, Lowri Fflur Davies ac Elin Williams. Llongyfarchiadau mawr i bawb ohonynt.

Rydym wedi ail ddechrau gyda chlwb yr Urdd ac mae'r plant

wedi bod yn brysur yn trafod pa weithgareddau y byddent yn hoffi eu gwneud dros y flwyddyn. Cawsom lawer o syniadau hyfryd. Dechreuom drwy gael noson chwaraeon lle cafodd y plant gyfle i ddatblygu ei sgiliau hoci a'u sgiliau peli.

Cawsom ymweliad gan Helen o'r Cynllun Gwên yn ddiweddar ac aeth o gwmpas y Cyfnod Sylfaen i sicrhau bod y plant yn brwsio eu dannedd yn gywir. Rydym yn rhan o'r Cynllun Gwên ers dwy flynedd nawr a nod y cynllun yw rhoi cyfleoedd i bob plentyn yn yr ysgol frwsio eu dannedd yn ddyddiol yn yr ysgol.

Mae plant yr ysgol wedi darparu blychau Nadolig i'w danfon yn anrhegion i blant llai ffodus yn Romania.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol yn Eglwys Sant Iago eleni. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y disgyblion a chafwyd anerchiad hyfryd a phwrpasol gan y Parchedig Chris Webb. Casglwyd tuag at elusen Cancer y Fron.

Mae plant blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur iawn yr hanner tymor yma yn astudio cestyll o gwmpas Cymru. Yn rhan o'r gwaith aethom ar daith o gwmpas Castell Dinefwr yn Llandeilo. Cafodd y plant gyfle i gerdded o gwmpas y castell a braslunio'r castell. Cawsom lawer o hwyl yn dychmygu byw mewn castell mor grand.

Sgiliau syrcas – Yn rhan o'n gwaith ar y thema 'Hapusrwydd' buodd plant y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan mewn gweithdy syrcas gyda Geraint. Cafwyd prynhawn llawn hwyl a sbri wrth iddynt geisio dysgu rhai o'r sgiliau a'r triciau.

Cafwyd bore difyr iawn yng ngŵyl Sbrî Di-ri yng nghwmni Gwenda Owen, Mr Urdd a Sali Mali. Cafwyd mwynhad mawr wrth ganu'r hen ffefrynau ac wrth ddysgu caneuon newydd.

Etholwyd cyngor eco newydd ar gyfer y flwyddyn ac maent eisoes wedi bod yn brysur yn casglu sbwriel, monitro'r tymheredd, y tapiau dŵr a'r defnydd o bapur. Mae cynllun newydd 'gwneud ffrindiau' yn cael ei weithredu ar y iard hefyd gyda phlant Bl. 5 a 6 yn gyfrifol am ei redeg.

Croeso i Miss Kelly Charlton i'n plith, a dymunwn wellhad buan i Miss June.

Cafodd disgyblion Bl. 5 a 6 ddiwrnod diddorol iawn yn Amgueddfa Bae Abertawe 1940au. Roedd yr ymweliad yn seiliedig ar ein thema, sef 'Y Blitz'. Roedd digon i'w weld a'i wneud yno a chafodd y plant hwyl yn gwisgo dillad y cyfnod.

Heb os, mae gennym sêr rygbi'r dyfodol yma yn Carreg Hirfaen. Dydd Mawrth diwethaf enillodd y bechgyn eu lle yn ffeinal



Cafodd y plant a'r staff lawer o hwyl yn gwisgo dillad pinc a chasglwyd £400, swm sylweddol i'r achos da yma. Bydd yr arian yn cael ei roi i Uned Cancer y Fron yn Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli.



Hoffwn ddiolch i Lynne Thomas ac i HSBC am eu cyfraniad hael o £500 i'r ysgol. Bwriedir defnyddio'r arian i brynu llyfrau Cymraeg newydd.

Cystadleuaeth Rygbi Sir Ceredigion gan golli yn yr eiliadau olaf yn erbyn tîm yr oeddent wedi ei guro yn gynt y diwrnod hwnnw. Chwaraeodd y bechgyn, o flynyddoedd 5 a 6, yn arbennig trwy'r dydd gan daclo'n ddigyfaddawd, arddangos doniau trin pêl gwefreiddiol, gwibio penigamp a chydweithio yn arbennig fel tîm wrth rycio a sgrymio. Yn wir, byddai rhai o sêr presennol tîm rygbi Cymru yn falch cael y fath ddoniau! Mae'r bechgyn yn awr yn mynd i gynrychioli Ceredigion ym Mhencampwriaethau Cymru fis Mai nesaf - amdani bois!

Diolch

Dymuna John a June, Maesteg ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau i ddathlu achlysur hapus eu Priodas Ruddem ym mis Awst. Cawsom amser bendigedig gyda'r teulu yn Bluestone.

Hefyd hoffai June ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniais, ac i bawb sydd wedi galw heibio i'm gweld ar ôl fy llawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Hoffai Darren a Bianca ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad.

Hefyd, dymuna Maureen Evans, Brynmaen ddiolch am y cardiau,

anrhegion, galwadau ffôn ac i bawb a ymwelodd â hi ar ôl dod adref o'r ysbyty.

Priodas Dda

Pob dymuniad da i Sara Jones, Penrhos ar achlysur ei phriodas â Giles Van Rees o Lanwrtyd.

Hefyd i Siân Thomas, 2 Treherbert a Kevin Douch o Bumpsaint a briododd yn ystod y mis.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Bryn a Helena, Werna ar enedigaeth ei ŵyr newydd – Sebastian, mab bach i Lyndon a Maxine.

Hefyd, ganwyd wyres i Dilys Godfrey, 43 Heol Hathren, merch i Aled a Wendy.

Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

Ysbyty

Rydym yn meddwl am Mr Evans, Nirvana sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Llanymddyfri. Dymuniadau gorau i chi.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Eiddig a Gwen Jones, Gellidewi Uchaf sydd wedi dathlu pen-blwydd priodas Ruddem yn ddiweddar.





HENO & PRYNHAWN DA:

Wrth galon eich cymunedau mae rhaglenni cylchgrawn poblogaidd S4C, Prynhawn Da a Heno yn crwydro Cymru yn ddyddiol yn chwilio am eich straeon chi.



Rhannwch eich straeon â ni, neu beth am ein gwahodd i'ch cymunedau? Boed eich stori'n fawr neu'n fach, mae lle iddynt ar Prynhawn Da a Heno.

Codwch y ffôn 01554 880 880, e-bostiwch heno@tinopolis.com prynhawnda@tinopolis.com, neu dilynwch ni ar Trydar a Facebook.

TLWS JOHN A CERIDWEN HUGHES

Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuencid Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

- Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuencid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi'r gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.

- Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa'r Urdd.

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

- Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n

ymwneud ag ieuencid sy'n dysgu'r iaith.

- Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i'r gyfundrefn addysg ffurfiol.

- Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuencid (diwylliannol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuencid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).

- Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuencid.

Os am ffurflen enwebu cysylltwch gyda Enfys Davies, Swyddfa Penhelyg, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion ar 01239 652163, neu trwy e-bost - enfys@urdd.org

Yn gywir
Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr

GWASANAETH SUL YR URDD

Dydd Sul, 17eg o Dachwedd bydd ysgolion, adrannau, aelwydydd,

ysgolion Sul a sefydliadau crefyddol trwy Gymru yn cael eu hannog i gynnal gwasanaeth Sul yr Urdd sydd eleni wedi ei ysgrifennu ar thema 'cydweithio'.

Mae'r gwasanaeth wedi ei lunio eleni gan y Parchedig Owain Llyr Evans, gweinidog Capel Minny Street Caerdydd ac mae ar gael mewn tair fersiwn – cynradd, uwchradd ac un ar gyfer oedfa. Mae gwasanaethau Sul yr Urdd yn cael eu cynnal gan aelodau'r Urdd ledled Cymru ers 1931.

Os hoffech chi gynnal gwasanaeth Sul yr Urdd yn eich ysgol / adran / aelwyd / ysgol Sul / sefydliad crefyddol, mae copi o'r gwasanaethau ar gael o wefan yr Urdd – urdd.org – gan ddewis 'dyngarol' neu mae croeso i chi gysylltu gydag Eurfyl Lewis ar eurfyl@urdd.org neu 07976 003359.

Angharad Prys
Urdd Gobaith Cymru
Swyddog Cyfathrebu, Swyddfa'r Urdd, 13 Llys Castan, Parc Menai, Bangor LL57 4FH.



Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwyh ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015.

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: post@camwrthgam.co.uk

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan:

www.camwrthgam.co.uk

Dyddiad cau: 24 Ionawr, 2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Enw: **Dorian Thomas**

Oed: 24

Pentref: Cellan

Gwaith: Trydanwr gyda Tai

Ceredigion

Partner: Luned Mair

Teulu: Wynford (Dad), Rhonwen

(Mam), Aled, Eleri ac Eirwyn

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Mynd i bysgota gyda Mam-gu Taigwynion.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Dinosaurs.

Yr eiliad o embaras mwyaf.

Chwydu o'r balconi yn nhŷ Luned ar ôl noson drom!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

Trin pobol fel yr hoffet gael dy drin dy hun

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?

Paid â boddran mynd i'r Brifysgol!

Y CD cyntaf a brynest di erioed?

Sai'n cofio!

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Dyn bins!

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?

Towlu porridge ar hyd y gegin gydag Eleri ac Eirwyn – o'dd mam yn dal i ffeindio'r gweddillion am wythnose'!

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?

Heb ddigwydd 'to...

Pryd a ble wyt ti fwyaf hapus?

Ma's 'da'r bois.

Beth yw dy lisenw?

Doz.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?

Ryan Jones.

Beth yw dy arbenigedd?

Neud te.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

'Bennu am 3:30 ar ddydd Gwener!

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?

Gweitho mewn atics yng nghanol yr insulation.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Byw yng nghanol cefn gwlad.



Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Dim lot o bethau i'w gwneud yn lleol.

Pa iaith wyt ti'n ei defnyddio gyntaf?

Cymraeg.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?

Person sy'n meddwl eu bod nhw'n well na phawb arall.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Rhoi deposit ar dŷ.

Beth sy'n codi ofn arnat?

Luned yn y bore.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?

Pan o'n i'n dost cwpwl o wythnose' 'nôl – ddim ar ôl nosweth mas am newid!

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Yn aros yn y goleuadau traffig ar dop Cwmann – ma nhw'n hopeless!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?

Porch y tŷ drws nesa' yng Nghaerdydd. Sai'n credu fod y cymdogion yn rhy bles!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

'Bennu cwrs hyfforddi i fod yn drydanwr

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Mynd mas 'da Luned – downhill

from there! (Jôc)

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?

Tawel, heblaw am ar nos Sadwrn.

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Renault Megane.

Beth yw dy hoff wisg?

Jîns, crys T a threiners.

A'th hoff adeilad?

Pantygwin.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Indian.

Beth yw dy ddiod arferol?

Te.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Dim lot. Clonc.

Beth yw dy hoff arogl?

Cino dydd Sul.

Sut wyt ti'n ymlacio?

Gwyllo Homes Under the Hammer ar y teledu.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?

Sky News.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?

361.

Hoff gân ar dy ipod?

A Thousand Trees gan Stereophonics

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?

Grand Designs, Storage Wars a

Russell Howard's Good News.

Sawl tecst y dydd wyt ti'n hala?

12.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?

Gallu tyfu barf teidi.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Ffôn symudol a walet.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Gallu chwarae offeryn cerdd.

Beth sy'n rhoi egni i ti?

Lucozade.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?

Thubthumping gan Chumbawamba (cân You Get Knocked Down...)

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?

Sai'n gwbod – sai 'di marw 'to

Beth fyddet ti'n ei wneud os na fyddet ti'n gwneud y gwaith hwn?

Gweitho'n Co-op o hyd

Ar beth y gwnest ti orwario fwyaf?

Fy nghar cynta' – o'dd e'n y garej fwy nag o'dd e ar yr hewl!

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?

Rhieni

Y gwyliau gorau?

Mallorca gyda Luned...neu Kavos gyda'r bois.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

UDA, Awstralia a Seland Newydd .

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Prynu tŷ, mynd i ddilyn y Llewod a mynd i bencampwriaethau tynnu rhaff y Byd.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?

Gallu stopo amser, fel Bernard's Watch.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?

Gosod y larwm.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?

Duw a wŷr!.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Menna Williams, Llanybydder

Llanbedr Pont Steffan

Bachgen bach

Llongyfarchiadau i Caryl a Ben Herrick, Pontfaen ar enedigaeth bachgen bach, Elis Frederick, brawd bach i Gwenno. Wyr newydd hefyd i Aeron ac Ann Hughes, Cwmhendryd a gor-wyr i Mrs Magw Hughes, Pantdderwen.

Gyrfa Chwist - Cartref Hafan Deg

Ar 25ain o Fedi cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn -

Dynion - 1af - Ifan J Jones, Bro Henllys, Felinfach. Cydradd 2il - Ray Jenkins, Llanybydder a Maggie Vaughan, Felinfach. Merched 1af - Eiry Jones, Llambled. 2il - Margret Jones, Pentrebach, Llambled. 3ydd - Ceri Lloyd, Ffostrasol.

Carden Miniature - Dynion - Edward Lockyer, Hafandeg, Llambled. Merched - Lil Thomas, Ffostrasol. Bwrw allan- Enillwyr - Gwendoline Jones, Llanybydder a Morfudd Slaymaker, Llambled.

Ar 9fed o Hydref cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn Cartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn - Dynion - 1af - Gwendoline Jones, Llanybydder. 2il - Ifan J. Jones, Bro Henllys, Felinfach. 3ydd - Dai W. Davies. Cellan. Merched - 1af - Peggi Davies, Brohenllys, Felinach. Cydradd 2il - Gwen Davies, Llanwnnen a Barbara Shaw, Llambled. Carden Miniature - Dynion - Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambled. Merched - Mary Jones. Stryd Y Bont, Llambled.

Bwrw Allan - Enillwyr - Iorwerth Evans, Llangybi a Nancy Davies, Heol Y Wig, Llambled. Ail - Cathrina Davies, Aberaeron a Gwendoline Jones, Llanybydder.

Merched y Wawr

Croesawodd Morwen Thomas y Llywydd, Gangen y Dderi a Changen Bronant i noson agored yng nghwmni Dewi 'Pws' Morris ai wraig Rhiannon.

Rhoddodd Morwen goeso cynnes i Dewi a Rhannon. Aeth Dewi ati i roi ychydig o'i hanes gyda'i hiwmor iach arferol. Yna aeth â ni ar wib ar hyd a lled y byd drwy ddisgrifio rhai o'i deithiau egsoftig i amryw o wledydd.

Cawson ail-fyw rhywfaint o'i brofiadau trwy wrando ar ei straeon lliwgar a gweld sleidiau trawiadol a ddangoswyd gan Rhiannon.

Rhannodd gyda ni'r wefr o deithio ac fe wnaeth i ni chwerthin yn ogystal â chodi awydd ar ambell un ohonom i godi pac a mynd i grwydro.

Cafodd yr aelodau gyfle i edrych yn fwy manwl ar rai o'r creiriau 'roedd Dewi wedi eu casglu ar eu

drafels a chymdeithasu a

mwynhau cwpanaid o de a chacennau wedi eu paratoi gan aelodau'r pwyllgor.

Talwyd y diolchiadau gan Ann Morgan.

Enillwyr raffl oedd Deborah, Glenys a Dorothy o Merched y Wawr Llangybi.

Enillydd y raffl misol oedd Janet Evans.

Bydd y cyfarfod nesa ar nos Lun 11eg o Dachwedd sef Cinio Blynnyddol yng

Ngwesty'r Talbot Tregaron. Y siaradwr gwadd fydd y Bon Andrew Jones, Felindre. Pawb i gwrdd yn y 'Rookery' am chwarter i saith.

Diolch

Dymuna Irene Jones, Penarth, Heol y Bryn, ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau, y galwadau ffôn, yr ymweliadau, a phob gweithred o gymwynasgarwch a ddangoswyd tuag ati yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty, ac wedi hynny, ar ôl cwympo.

Brondeifi

Nos Sul y 13eg o Hydref daeth cynulleidfda dda ynghyd i'r gwasanaeth Diolchgarwch. Eleni cafwyd pleser cwmni'r Bonwr Gwyn Elfyn i'n hannerch a chafwyd gwasanaeth hyfryd a neges amserol wedi ei chyflwyno'n ddiwyll iawn ganddo.

Y prynhawn Sul canlynol yn rhan o'r gwasanaeth cymun, tro disgyblion yr Ysgol Sul oedd cynnal eu gwasanaeth Diolchgarwch hwy. Yn addas iawn 'Diolch' oedd thema'r gwasanaeth ac roedd y plant i gyd wrth eu bodd yn cyflwyno'u neges.

Cafwyd unawdau hyfryd ar y piano gan Indeg ag Elin; Elen wrth ei bodd yn canu am 'Y Wiwer' a chafwyd adroddiad graenus gan Hanna. Bu Martha, Ffion, Sara a Lili yn cyd-adrodd 'Diolchgarwch' tra bu Sion; Llyr; Rhys; Ifan; Gwion; Griffudd; Marged; Deina a Megan yn cynorthwyo gyda'r cyflwyniad.

I ategu at y gwasanaeth hyfryd daeth pob un â blodyn i'r oedfa, gan ddewis blodyn gwahanol i fynd adref gyda nhw. Cafwyd anerchiad i'r plant gan y Gweinidog gan ddiolch iddynt am eu gwasanaeth graenus. Hefyd cafwyd datganiad swynol o 'Pererin Wyf' gan griw o'r gwragedd ifanc sef Meinir Jones; Ann Davies; Heini Thomas; Meleri Jones; Nelian Jones a Sarah Evans gyda Meinir Evans yn cyfeilio.

Urdd y Benywod Brondeifi Y Plygain yn dod yn gynnar i Brondeifi.

Agorodd tymor newydd Urdd y Benywod, Brondeifi, gyda'r gynulleidfda yn codi eu lleisiau mewn cân, sef O Deued Pob Cristion. Felly

dechreuodd y wraig wadd, Elizabeth Evans o Borth-Tywyn, aelod o'r Gymdeithas Canu Gwerin, ei sgwrs ar y Plygain. Yn ei barn hi, nid pwnc academiaidd yw'r Plygain ond gwasanaeth i adfywio cymdeithas ac i rannu gwybodaeth a doethineb y Beibl. Ganol gaeaf, yn arbennig, fe fyddai'r gwasanaeth yn codi calon ac yn ysbrydoli pobl, fel y dangosodd hi yn ei detholiad o straeon am y Plygain drwy'r canrifoedd. Adroddodd stori ei Thad-cu yn cofio am redeg dros y caeau oer a thywyll a gweld yr eglwys yn disgleirio yn y pellter yn addo cysgod a chynhesrwydd. Ac os clywodd Ar gyfer heddiw'r bore, er enghraifft, fe fyddai wedi amlinellu hynafiaid Iesu o'r Hen Destament i'r Newydd.

Roedd yr hanes a gawsom gan Elizabeth am y Plygain yn ddiddorol. Er i'r capeli Cymreig fabwysiadu'r gwasanaeth a'i gymryd i'w calonnau, tarddodd y Plygain yn wreiddiol o'r eglwys Babyddol, ac ar ôl amser Harri'r Wythfed, yr eglwys Anglicanaidd. Mae'r gair plygain neu pwlgain yn dod o'r Lladin, pullicantus, sef yr amser boreol pan fydd y ceiliog yn clochdar. Yn draddodiadol byddai'r gwasanaeth yn cael ei gynnal rhwng tri a chwech y bore. Darllenodd Elizabeth adroddiad am un teulu fferm yn aros ar lawr ac yn dawnsio a chanu hyd ddau o'r gloch y bore cyn tawelu a chychwyn ar ei ffordd i'r eglwys.

Er bod y Plygain bron â marw yng Nghymru, dywedodd Elizabeth bod y gwasanaeth wedi ail-gydio yn nychymyg pobl. Mae eglwysi a chapeli heb draddodiad o'r Plygain yn cynnal gwasanaethau poblogaidd. Bydd y geiriau ac alawon y carolau yn apelio at y gwrandawyr. I gloi ei chyflwyniad canodd Elizabeth un o'i hoff garolau, Ar Fore Dydd Nadolig, sy'n defnyddio plaengan o'r eglwys Babyddol. Dyma'r unig garol sydd wedi goroesi o'r hen amser gyda'r dôn a'r geiriau yn gyflawn, ond ni fyddai'r trydydd pennill yn cael ei ganu ar rai adegau mewn rhai addoldai oherwydd y clod sydd ynddo i'r Forwyn Fair. Mwynhaodd y gynulleidfda yn Brondeifi y garol a llais contralto hardd Elizabeth. Fe fydd cyfle i'w chlywed yn canu eto, ynghyd â sawl unigolyn a pharti arall, yn ystod gwasanaeth y Plygain yng nghapel Coleg y Drindod, Dewi Sant, nos Lun yr 2ail Rhagfyr 2013 am 7 y.h.

Diolchodd Mary Jones i Elizabeth Evans am agoriad braf a ddiddorol i gyfarfodydd Urdd y Benywod Brondeifi. Yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn 2013/2014 (pob ail ddydd Mawrth yn y mis fel rheol) fe fydd aelodau'r Urdd yn ymddiddori mewn amryw o bynciau yn cynnwys reflexology a hen greiriau. Mae croeso i bawb ddod i brofi ein cymdeithas, ac nid oes rhaid bod yn

aelod o Gapel Brondeifi i ymuno ac i fwynhau yn ein cwmni.

Cneifio yn Seland Newydd

Ers canol mis Hydref mae Steffan Jenkins, Tyllwyd a Siôn Lewis o Alltyblaca wedi mynd allan i gneifio yn Seland Newydd. Dymuniadau gorau i chi eich dau a chofiwch ddanfôn neges i Clonc ar y gweplyfr - Facebook ac ambell i lun ohonoch i weld sut mae'n mynd gyda chi.

Cymdeithas Hanes

Daeth tyrfa dda iawn i gyfarfod mis Hydref ac fe groeswyd pawb gan Selwyn Walters, y Cadeirydd. Noson y ddarlith Gymraeg oedd hon a draddodwyd gan Lyn Ebenezer, y newyddiadurwr a'r awdur toreithiog o Bont-rhyd-fendigaid. Roedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg gan Sian Jones.

'Atgofion o'r Bont' oedd thema'r siaradwr, ac er iddo ddychwelyd i'w 'filltir sgwâr' mae'n well ganddo feddwl am y lle fel 'cylch', gan fod bywyd yn troi yn ddi-stop.

Canolbwynt ei fywyd personol oedd Ystrad Fflur ac roedd ganddo deimlad o barchedig ofn tuag at yr hen abaty wrth feddwl am y ddysg a'r gofal cymdeithasol sydd wedi bod ynghlwm â'r lle ers dyddiau'r mynachod. Cofiai weld llun o 'Temptiad Crist' yn Fferm yr Abaty pan yn blentyn a'r ofn y byddai'r diafol ei hun yn dod i'w nôl pe byddai'n cam-fihafio!

Cofiai am ei athrawes, Miss Avarina Evans a fagodd ddiddordeb y plant yn hanes eu bro. Roedd yn mynd â nhw i'r abaty er mwyn dysgu mesur a chofnodi beth oedd yno. Roedd darllen, rhifydddeg ac ysgrifennu ynghudd yn y gweithgaredd hwnnw.

Soniodd am enwau ffermydd fel Dol-ebolion a Bron-y-berllan sy'n cyfleu bywyd amaethyddol yr ardal a hoffai wybod pwy oedd y lleian a roddodd ei henw i Nant-y-fynaches!

Talodd Lyn deyrnged i'r Athro David Austin sydd wedi ymrwymo'i hun a chyflawni cymaint o waith yn Ystrad Fflur dros y blynnyddoedd diweddar. Mae'n amlwg erbyn hyn fod yr Abaty ddeg gwaith yn fwy na'r hyn y tybiwyd iddo fod yn nyddiau cynnar y gwaith ymchwil.

Rhaid oedd cyfeirio at bennill T. Gwyn Jones:-

Mae dail y coed yn Ystrad Fflur

Yn murmur yn yr awel,

A deuddeg abad yn y gro

Yn huno yno'n dawel.

Teimla ym mên ei esgyrn fod ffydd i'w ganfod wrth grwydro'r man tawel o gwmpas yr Abaty a'r fynwent lle gorwedd y bardd Dafydd ap Gwilym.

Diolchwyd yn gynnes i Lyn am ei atgofion gan y Cadeirydd, ac i Sian am ei chyfieithu, a chafwyd cryn hwyl dros 'baned ddiwedd y noson.

Llanbedr Pont Steffan



GSUSlive

A welsoch chi lori fawr wedi ei pharcio ar gwrth ysgol Bro Pedr ddechrau mis Hydref, a phendroni amdani? Lori GSUSlive oedd yno, ar daith i ysgolion uwchradd Ceredigion gan dreulio wythnos ymhob un. Ar y lori roedd ystafell ddosbarth gyda nifer o gyfrifiaduron a chyfle i ddosbarth cyfan o ddisgyblion ddilyn rhaglen o waith yn seiliedig ar brofiadau fel ofn, dieter a thrafferth i faddau, a'r ymdeimlad o gael eich gwrthod. Yn rhan o'r gwaith mae cyfle i ystyried dysgeidiaeth Iesu am y sefyllfaoedd hynny mewn ffordd sy'n berthnasol i bobl ifanc yn eu harddegau ac i rai hŷn. Roedd gwirfoddolwyr o eglwysi'r dre yn croesawu'r dosbarthiadau, a gyda'r nos fe fu grwpiau eglwys hefyd yn ymweld. Elusen gofrestredig COUNTIES sy'n darparu'r lori sy'n ymweld ag ysgolion drwy wahoddiad ar hyd y lle, ac erbyn hyn mae'r lori a oedd yng Ngheredigion ar y ffordd i Coventry am dymor arall o waith. Yn y llun fe welwch rai o'r gwirfoddolwyr yn barod i groesawu'r dosbarth nesaf.



Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 19eg am 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd Quentin Drew, yn rhyfedd iawn, yn siarad am Fynwent Ystrad Fflur, gan roi sylwadau fel archaeolegydd. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Mrs Nesta Harries ddiolch i'r gweinidog y Parchedig Jill Tomos ac aelodau Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi am y rhodd arbennig a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad fel Ysgrifennydd y Cylch yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y tymor yn ysgol Bro Pedr ddechrau mis Hydref. Er mai criw bach oedd yn bresennol cafwyd llawer o sbri yng nghwmni Rhydian o'r Urdd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm a datrys problemau. Diolchodd Meirion i Rhydian am noson ddiddorol a difyr ac i Janet a Rosaline am gadw trefn.

Nos Lun 22 Hydref daeth yr aelodau ynghyd i'r Ganolfan Hamdden i fwynhau noson o hwyl Calan Gaeaf yng ngofal Geinor Medi. Rhannwyd yr aelodau yn dri thîm a bu pawb wrthi'n gwneud tasgau a chystadlaethau amrywiol a chael llawer o sbort wrth wneud hynny. Roedd enillydd y Mymi gorau yn edrych yn frawychus iawn!

Talwyd diolch gan Caryl i Geinor Medi am noson o chwerthin iach.

Cytunodd Geinor Medi a Janet gario mlaen yn arweinyddion ac Elan yn Gadeirydd, Natalie yn Ysgrifennydd a Meirion yn Drysorydd.

Soniodd Janet am y Gymanfa Garolau a gynhelir yn Shiloh nos Sul 1 Rhagfyr am 5.30 dan arweiniad Enfys Hatcher ac roedd nifer o'r aelodau yn barod i gymryd rhan. Bydd y rhaglenni ar werth cyn hir am £3 a'r elw yn mynd at Glefyd y Siwgr a gwaith yr Adran a'r Aelwyd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 19 Tachwedd sef noson Ffilm a Pop-corn. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Noddfa

Er bod rhai teuluoedd wedi methu â bod yn bresennol braf oedd gweld cynulliad teilwng o aelodau, rhieni a ffrindiau'r achos wedi dod ynghyd i Noddfa ar 20 Hydref i oedfa ddiolchgarwch yr Ysgol Sul wedi ei llunio gan Janet. Diolchwyd i Ddau am ei holl fendithion a chofwyd hefyd am y rhai sy'n dioddef. Roedd y plant wedi bod yn brysur yn yr Ysgol Sul yn addurno coeden ddiolch yr un ac roedd arddangosfa o'r gwaith yn edrych yn lliwgar a hardd o amgylch y pulpud.

Croesawyd pawb yn gynnes gan Tomos Rhys a chyhoeddwyd yr emynau gan Ffion Davies, Sion Evans, Osian Roberts, Tomos Jones ac Osian Jones. Offrymwyd gweddïau a darllenwyd rhan o'r Gair gan Llinos Jones, Sian Jones a Helen Davies a'r llefarwyr oedd Lisa Evans, Sian Roberts Jones a Tomos Rhys. Mwynhawyd cyfraniad y plant lleiaf yn fawr iawn mewn pennill a chan, sef Gwenllian Llwyd, Ffion Davies, Osian Roberts, Sion Evans, Tudur Llwyd a Rhun Davies gan ddod â gwên i wynebau pawb. Hefyd cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan unawd hyfryd Lowri Elen sef 'Cân Dafydd' o waith Verina Matthews, adroddiad graenus Gwenllian a phartion unsain a deusain swynol gyda Lisa, Elan Jones, Beca Roberts, Sioned a Ffion

Davies hefyd yn amlygu eu doniau fel unawdwyr.

Cyflwynwyd sgysiaid diddorol gan Lisa a Beca ynghyd â Tomos ac Osian yn llawn hiwmor ond eto yn pwysleisio pwysigrwydd cynorthwyo'r rhai llai ffodus na ni. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Delyth a Lowri Elen a chyfeiliwyd i'r plant gan Alwena a Janet.

Talodd ein gweinidog y Parchedig Jill Tomos deyrnged uchel i bawb am eu gwaith ardderchog, i Janet am ei pharatoadau manwl yn ôl ei harfer, i'r rhieni am eu cefnogaeth ac i Derek am osod y llwyfan. Datganodd ei phleser wrth groesawu tri aelod newydd i'r Ysgol Sul sef Rhun, a'r chwirydd Sioned a Ffion a hefyd eu teulu oedd wedi ymuno â ni am y tro cyntaf. Hyfryd oedd gweld y tri ohonynt yn cymryd rhan yn yr oedfa. Hefyd diolchodd ein gweinidog i'r plant a'r bobl ifanc am ddod â chyflenwad o duniau ar gyfer Banc Bwyd y dref a thrwy hynny helpu'r rhai sydd â gwir angen yn ein cymuned.

Llongyfarchwyd tri o'r bobl ifanc ar eu llwyddiant ar raddfa genedlaethol eleni sef Tomos ar ei ddewis yn aelod o dîm criced bechgyn Cymru, Beca ar gipio'r wobwr gyntaf yn rasys traws-gwlad yr Urdd a Ffion ar ennill y drydedd wobwr ar yr unawd dan 8 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Roedd pawb yn uchel iawn eu canmoliaeth o gyfraniadau'r plant a'r bobl ifanc ac wedi cael bendith a phleser yn eu cwmni.

Baban Newydd

Llongyfarchiadau i Jos a Beryl Davies ar enedigaeth ŵyr bach Gwion, sef mab i Eurfyl a Jenny a brawd i Bria yn Llantrisant. Pob dymuniad da i'r teulu.

Sioe Llambod

Mae dathliadau Sioe Llanbed yn 125 yn mynd yn eu blaen gyda'r digwyddiad nesaf, y Gymanfa Ganu, ar 17 Tachwedd 2013 yng Nghapel Shiloh am 7 yh. Byddwn yn ddiolchgar am gefnogaeth yr ardal gan fod y Gymanfa yn cael ei recordio ar gyfer Caniadaeth y Cysegr. Os am raglen neu fwy o fanylion cysylltwch â Eira Price: 01570 423764 neu Ioan Williams: 01570 422370. Bydd yr elw at Apêl Gary Davies Nebo at Ymchwil Cancr y DU.

Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh

Daeth tua deugain o aelodau a ffrindiau ynghyd nos Wener Hydref 25 i swper y cynhaeaf o dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol. Mr John Phillips yw'r Llywydd am eleni ac mi estynnodd groeso cynnes i bawb gan ddiolch i'r ysgrifennydd Rhys Bebb Jones, gyda help Twynog, am lunio rhaglen ddiddorol ac amrywiol. Mwynhawyd pryd hyfryd o fwyd wrth y byrddau a da oedd profi cydweithrediad mor gynnes a chyfeillgar ymysg gwragedd y ddwy Eglwys tra yn gweini wrth y byrddau. Lowri Elen Jones oedd yn gyfrifol am yr adloniant ac mi gafwyd ganddi amrywiaeth hyfryd o ganeuon hen a newydd gan gynnwys Y Cwm, Huw Chiswell, Wele'n Sefyll o'r sioe gerdd Ann a'r clasur Anfonaf Angel gan Robat Arwyn. Yn ychwanegol, mi gyflwynodd yn deimladwy iawn un o ysgrifau y diweddar Robin Williams. Mi wnaeth y cyfan gyfleu pa mor amryddawn a thalentog yw Lowri ac mi dderbyniodd gymeradwyaeth wresog oddi wrth y gynulleidfa. Yn cyfeilio i Lowri oedd Lois Williams sydd bellach wedi dychwelyd o'r gogledd ac yn athrawes weithgar yn Ysgol y Dderi ac yn gyfeilydd i Gôr Merched Corisma.

Twynog Davies a gafodd y

Llanbedr Pont Steffan

fraint i ddiolch i Lowri a Lois am eu cyfraniad gwerthfawr i'r noson agoriadol ac yn arbennig i'r gwagedd a fu yn cynorthwyo gyda'r bwyd. Bydd y cyfarfod nesaf brynhawn dydd Gwener Tachwedd 8 am 1-30 pan bydd Tom Dafis a'i ferch Manon yn sôn am waith Cymorth Cristnogol yn Kenya ac Ethiopia ac yn enwedig am y prosiectau i greu dŵr glân. Bydd hwn yn gyfarfod agored. Croeso cynnes i bawb.

Cymorth Cristnogol

Bydd Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh a Soar ar brynhawn Gwener Tachwedd 8 am 1.30y.p. yn y Festri yn Shiloh yn croesawu Tom Defis -

Ysgrifennydd De Cymru o Gymorth Cristnogol a'i ferch Manon. Mi gafodd Manon y cyfle yn ddiweddar i ymweld a Kenya, Tanzania a Cambodia i brofi yn arbennig sut mae'r arian a gesglir yn flynyddol gan y mudiad yn cael ei ddefnyddio er mwyn creu ffynhonnau i ddod a dŵr glân i rai o gymunedau tlawd y trydydd byd. Bydd hwn yn gyfarfod agored ac mae yna groeso i unrhyw un sydd a diddordeb yng ngwaith Cymorth Cristnogol i ymuno gyda aelodau'r Gymdeithas yn y cyfarfod arbennig yma. Dangosir lluniau lliw yn ystod y cyflwyniad ac mi fydd yna baned o de ar y diwedd a chyfle i gymdeithasu. Croeso cynnes i bawb.



Roedd Canolfan Edward Richard, Ystrad Meurig yn llawn ar 24 Hydref ar gyfer Lansiad y llyfr 'From Aberystwyth to San Francisco' gan Wasg Carreg Gwalch. Detholiad a chyfieithiad o Lythyrau y Parchedig William David Evans (Cymru a'r Unol Daleithiau) yw'r llyfr gan Margaret Jones, Penbryn, Llambled, ei or-nith. Braf oedd cael cwmni dau o'i ddisgynyddion sef David Evans a Micaiah Evans o'r Unol Daleithiau ar yr achlysur arbennig hwn. Bu'n noson llwyddiannus a phleserus iawn.

Teithiodd y Parchedig W. D. Evans yn helaeth yn nyddiau arloesol yr ymsefydlu mewnfyddol yn America gan ddanfôn llythyron nôl i Gymru. Cawsant eu hargraffu mewn cyhoeddiadau amrywiol Cymraeg. Daw ei lais yn amlwg yn y llyfr gyda chynhesrwydd, parch a hiwmor. Bydd pawb sydd â diddordeb mewn cymunedau Cymreig tu allan i Gymru yn mwynhau'r llyfr hwn yn fawr. Dyma anrheg Nadolig delfrydol.

Yn y llun gwelir Meinir Williams, telynores, Jen Llywelyn cynrychiolydd Gwasg Carreg Gwalch, David a Macaiah Evans o'r Unol Daleithiau, Margaret Jones, awdur a Mair Lloyd, Llywydd y noson.

Llun: Arvid Parry Jones

Cyfarfod Cymdeithas Edward Llwyd

Cyfarfod Hydrefol yn ardal Llanbedr Pont Steffan oedd teitl y gweithgarwch yng ngofal Ieuan Roberts ar ddydd Sadwrn y 28ain Hydref. Roedd arolygon y tywydd yn dda a 19 wedi ymgynnull ym maes parcio y Rookery am 10.30 y bore gyda nifer dda o'r aelodau lleol yn bresennol ac un o gyn belled â Chaerleon. Y bwriad oedd sylwi ar goed lleol yn gwisgo eu hadau a'u ffrwythau tymhorol ac unrhyw nodwedd hydrefol arall.

Roedd ambell i goeden gastanwydden y meirch yn drwm o gastan o gwmpas y Rookery ac ar y ffordd i barc Sant Germain Sur Mer sylwyd ar gerddinen wen gyda'i haeron coch. Yn y parc tynnwyd sylw at goeden brydferth yn llawn aeron coch sydd yn brin iawn yng Nghymru. Draenen wen lydanddail, Crataegus persimilis, yw hon, yn wreiddiol o Ogledd America ac mae dwy yng Ngheredigion, cwpwl yn Sir y Fflint a chwpwl yng Ngwent.



Llun o'r criw dan goeden brin Draenen wen lydanddail sydd gyferbyn a Swyddfa'r Heddlu ym mharc Sant Germain sur Mer.

Edrychwyd ar hadau'r tresi aur yn Hafandeg, cerddinen wen, ceirios a phisgwydden yn yr Agri cyn mynd draw i weld planyddden Llundain ger y bont ar y ffordd i Lynhebog. Croesi o Bontfaen i lawr at yr afon Teifi wedyn a sylwi mai ond rhai o'r coed ynn oedd yn llawn hadau neu allweddi a hynny yn cadarnhau bod yr onnen fel yr ywen a'r gelynnen naill ai yn wryw neu'n fenyw. Gweldd ambell ddeilen o'r coed helyg gyda chwydd bychan gwyrdd a choch arnynt, ryw chwech milimetr ar draws, ac o'i dorri canfod lindysyn bychan o'i fewn. Lindysyn chwydd deilen yr helyg, willow leaf gall, Pontania proxima, yw hwn fydd yn cwmpo gyda'r dail ac yn dod allan o'r chwydd a gaeafu fel chwiler ar wyneb y ddaear cyn deor yn bryfyn bach y gwanwyn nesaf i gwblhau ei gylch bywyd drwy ddodwy ei wyau ar ddail helyg eto.

Mae tua 25 o wahanol fathau o goed ger yr afon Creuddyn cyn cyrraedd y Teifi ac yng nghae Sion Phillip, sef y trydydd cae, gwelwyd pincas robin (bedeguar gall) ar rosyn gwyllt. Chwydd blewog gwyrdd a choch wedi ei achosi gan bryfyn yn y blagur yw hwn hefyd. Mae tri math o goed derw yng nghae Sion Phillip, y dderwen ddigoes (sessile), y dderwen goesog (penunculate) sydd yn disgrifio hyd coes y fesen, a'r dderwen dwrci gyda chwpan y fesen yn flewog. Mae nifer fawr o chwyddi (galls) ar y dderwen a gwelwyd afal y dderi, chwydd Knopper a chwydd serenog ar gefn y dail. Y peth mwyaf trawiadol oedd gweld chwydd arall ar ddeilen ac o dorri i mewn iddo darganfod prfyn bychan du llawn dwf yn esgor ohono ac yn ymestyn ei adenydd a hedfan i ffwrdd. Gallwn goelio o weld hyn bod y dderwen yn hafan i hyd at fil o wahanol rywogaethau ac yn bwysig iawn ym myd natur. Wrth groesi'r bont dros afon Creuddyn gwelwyd ffwng ysgwydd y fedwen ar frigyn marw a ffwng croen oren ar y llawr.

Wedi cael cinio hamddenol ger Pwll Soldiwr, afon Teifi, aethom ymlaen i weld rhai o'r coed mwy anarferol yn cynnwys poplysen ddu, coeden diwlip, cnau Ffrenig, derwen goch, castanwydden ber ac oestrwydden.

Aeth mwyafrif y criw ymlaen i gerdded cylch yng nghoedwig Longwood. Roedd bod yn y coed ffawydd uwch Mount Pleasant fel bod yng ngwlad y tylwyth teg gyda ffwng porslen clauerwyn ymhobman ar frigau'r coed ffawydd oedd wedi marw. Diwrnod da iawn o naturiaetha.

Bydd croeso i unrhyw un ymuno â ni am 10.30 y bore ddydd Sadwrn 18ed o Ionawr i weled y coed yn eu noethni gaeafol neu ar unrhyw daith arall a gellwch eu gweld i gyd ar www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk.

Cymdeithas Amaethyddol
Llanbedr Pont Steffan
CYMANFA GANU
i ddathlu 125 mlynedd
Nos Sul 17 Tachwedd 2013
yng Nghapel Shiloh
am 7 o'r gloch
Arweinydd: Mr Twynog Davies
Organydd: Mr Bryan Jones
Llywydd: Miss Elin Jones AC
Artistiaid: Côr Merched Corisma
Côr Meibion Cwmann a'r Cylch
Mynediad drwy raglen: £5
(Eira Price: 01570 423 764 neu Ioan
Williams: 01570 422 370 neu ar gael
yn Y Pantri a W D Lewis)
Cyflwynir yr elw at Apêl Gary Davies
Nebo at Ymchwil Cancr y DU

URDD GOBATH CYMRU Llanbedr Pont Steffan CYMANFA GAROLAU SHILOH

Nos Sul 1 Rhagfyr 2013
am 5.30 o'r gloch

yng nghwmni
Aelodau a Ffrindiau'r Urdd
Arweinydd: Enfys Hatcher

Mynediad trwy raglen yn £3
Plant am ddim
Elw at waith yr Urdd yn lleol a
Chlefyd y Siwgr
Croeso cynnes i bawb

Mis y Papur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Aloha!

Yn aml, pan fyddwn ni'n mynd i wlad bell ar wyliau, fe fyddwn ni'n chwilio am bethau sy'n debyg i'n gwlad ein hunain.

Dod rownd rhyw dro ar ffordd yng nghefn gwlad Ffrainc, falle, a dweud, "Diawcs, mae hwnna'n union fel gwaelod Tychrug" neu weld afon yn troelli a meddwl am Lanfair Clydogau.

Dw i ddim wedi bod ar wyliau, ond dw i wedi bod dros y dŵr yn gweithio – un o'r pethau da am fod yn newyddiadurwr weithiau ydi cael mynd i lefydd na fasech chi'n eu gweld fel arall.

Un o'r llefydd oedd ynysoedd Hawaii ac mi welais i Gymru yno hefyd. Gwaetha'r modd dw i'n poeni mai gweld Cymru'r dyfodol wnes i.

Dilyn ôl traed Cymro o'r enw David Samwell yr o'n i a chriw cwmni teledu Unigryw – ef oedd y meddyg ar un o'r llongau pan gafodd Capten Cook ei ladd yn yr ynysoedd yng nghanol y Môr Tawel – a gweld sut le sydd yno tros 200 mlynedd wedyn.

"Gwahanol iawn" ydi'r ateb. Pan alwodd Samwell a Cook heibio yn 1798, dim ond pobol o'r un tras â gweddill ynyswyr Môr y De oedd yno – hil Tahiti a Fiji a'r gweddill. Does neb yn siŵr faint oedd yno – rhwng 400,000 a miliwn ydi'r amcangyfrif.

O fewn 100 mlynedd, roedd y nifer wedi syrthio i tua 40,000 oherwydd clefydau'r dyn gwyn a, hyd yn oed heddiw, a nhwthau bellach yn rhan o Unol Daleithiau America, mae'n debyg mai dim ond rhyw 5% o'r holl boblogaeth sy'n frodorion gwreiddiol.

Er hynny, "Aloha!" oedd gair pawb wrth eich croesawu chi ac roedd bron pawb yn dweud "mahalo" wrth ddiolch. Roedd twristiaid yn gwisgo'r torchau blodau traddodiadol ac roedd yna hysbysebion yma ac acw am nosweithiau o ganu traddodiadol.

Llawer mwy anodd oedd dod o hyd i bobol oedd yn siarad yr iaith frodorol ac yn deall ystyr y torchau. Er fod yna ryw faint o lwyddiant wedi bod o ran agor ambell ysgol Hawaiaidd, doedd fawr ddim o'r iaith i'w chlywed ... dim ond aloha, mahalo i wneud i bobol deimlo'n well.

Tros y ddwy ganrif ers i bobol wynion gyrraedd yr ynysoedd, sydd 3,000 o filltiroedd o'r tir mawr agosa, mae yna don ar ôl ton o genhedloedd eraill wedi cyrraedd, i weithio ar y planhigfeydd siwgr, ar y ffermydd coffi ac ym maes twristiaeth.

Mae'r wynebau o gwmpas y lle'n gymysgedd o wynebau o Japan, Korea, China, y Ffilipins, ambell ynys arall ac, wrth gwrs, Americanaid o bob math – amryw fel petaen nhw yno ers yr 1960au, eraill fel petaen nhw wedi licio bod yno bryd hynny.

Roedd poblogaeth rhai llefydd wedi dyblu o fewn y tair blynedd diwetha' ... rhai pobol yn dod oherwydd fod ganddyn nhw ddigon o arian i fforddio gwneud hynny; eraill yn dod am fod bod yn ddi-waith yn Hawaii yn brafiach nag mewn sawl lle arall.

Er nad ydi'r ynysoedd cyfan mor hardd ag yr oeddwn i wedi ei ddychmygu, petaech chi'n byw ar lan y môr ac yn treulio eich amser ar y traethau ac yn y bariau a'r caffis, mae'n ddigon posib y byddai bywyd yn ymddangos yn braf.

Ac felly, roedd yna bob math o bobol wedi hel yno i chwarae byw. Ar y stondinau crefft welais i, roedd lot o ddeunydd 'lleol' yn cael ei werthu ond gan bobol o bant. Roedd ysbryd Hawaii yn amlwg, meddai pawb, ond ei fod ym meddiant pobol ddieithr.

Bron nad ydi syrffio'n symbol. Yn Hawaii y dechreuodd y gamp – mae David Samwell ei hun yn disgrifio pobol ifanc, a hyd yn oed blant bach, yn mentro i farchogaeth tonnau anferth, yn cwmpo i'w canol ac yn codi dan chwerthin bob tro.

Ond mae syrffio hefyd wedi ei feddiannu ... pobol wynion yn dangos eu hunain i'w gilydd oedd i'w gweld ar y tonnau heddiw. Roedd y lle wedi mynd yn fan chwarae i bobol ddwâd, heb fawr o gysylltiad â'r hyn oedd yno o'r blaen.

Wnes i ddweud bod Hawaii'n debyg i Gymru'r dyfodol? Do wir? Mahalo.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Yn y Gegin gyda Gareth



Taffi Mis Tachwedd

Gyda naws a lliwiau mis Tachwedd o'n cwmpas, yn naturiol bydd atgofion plentyndod yn dod nôl i'r cof ac un ohonynt yw arogl a blas taffi. Cofiaf am mam-gu yn gwneud taffi ar brynhawn gwlyb o Hydref; ei ferwi a'i dorri a'i becynnu mewn papur gwrth saim, a'i storio mewn tun te, a byddai hwn wedyn yn "treat" arbennig ar ôl dod nôl o'r ysgol.

Mae taffi yn rhan o ddatliadau 'Calan Gaeaf' fel 'Trick and Treat' ac mewn ffeiriau mae'n amlwg mewn afalau taffi.

Nawr mae blas taffi yn ffasiynol a phoblogaidd iawn, sef 'Taffi blas halen'. Mae'n ysbrydoliaeth i'r rysait gyntaf yma. Rhowch gynnig arni.

Mwynhewch y taffi a hynny ym mis Tachwedd. Cofiwch, bydd hud a lledrith y Dolig yn rhifyn Rhagfyr Clonc.

Hwyl!
Gareth

Rysait hyfryd Hydrefol

Cynhwysion.

4 afal
Dwy llond llwy de o sudd lemwn
50 gm o fenyn
50 gm o siwgr brown meddal
Un llond llwy de o fanila
3 llwy fwrdd o hufen
½ llwy de o halen
Ychydig almwn wedi'u rhostio



Dull

1. Pliciwch yr afalau, torrwrch yn ¼ a gwaredwch yr hadau. Sgeintiwrch â sudd lemwn.
2. Cynheswch llond llwy fwrdd o'r menynd mewn padell ffrio a choginiwch yr afalau nes eu bod yn feddal. Codwch o'r gwres ac ychwanegwch weddill y menynd a'r siwgr. Toddwch nes bod y cyfan yn ffrwtian. Tynnwch o'r gwres ac ychwanegwch y fanila a'r halen. Cymysgwch.
3. Gweinwch gyda'r afalau, yr hufen a'r almwn. Mwynhewch!

Tarten taffi ac afalau

Cynhwysion

Un pecyn o does parod shortcrust.
4 afal coginio
3 afal bwyta coch
Sudd un lemwn
150 gm o siwgr brown meddal
2 llond llwy de o fanila
Ychydig o sbeis cymysg
75 gm o jam bricyll (apricots)
Un wy wedi'i guro



Dull

1. Pliciwch a pharatowch yr afalau coginio, rhowch mewn sosban gyda'r lemwn, siwgr, sbeis a'r fanila. Coginiwch am ¼ awr i greu stwnsh.
2. Rholiwch y toes a defnyddiwch i leinio tun hirsgwar 13" x 8". Gwnewch dyllau efo fforc drosto. Oerwch am tua ¼ awr. Gorchuddiwch â phapur gwrthsaime a 'ffa ffwrn'. Pobwch am tua ¼ awr. Gwaredwch y papur a'r ffa a choginiwch am 10 munud arall.
3. Plygwch yr wy i'r puree, gwasgarwch dros y toes. Sleiswch yr afalau melys yn denau a gosodwch yn haenen ar y wyneb. Brwsiwch â sudd lemwn. Pobwch am ½ awr.
4. Toddwch y jam a brwsiwch dros y darten. Gweinwch â hufen.

Snaps Taffi

Cynhwysion

50 gm o fenyn
2 llond llwy fwrdd o driog (syrup)
50 gm o siwgr brown
50 gm o flawd plaen
Un llond llwy de o bowdwr sinamon.



Dull

1. Irwch ddolennu llwyau pren ac irwch ddau hambwrdd pobi.
2. Toddwch y menynd, triog a'r siwgr i greu saws taffi, yna plygwch y blawd a'r sbeis iddo. Gosodwch 8 llond llwy de ar hambyrddau pobi. Pobwch am 8 i 10 munud yna rholiwch am ddolenni llwyau pren. (Slip the biscuit from the handle) Gadewch i oeri ac yna llenwch gydag hufen wedi'i guro.

Llanfair Clydogau



Pobol Hŷn Llanfair a Chellan

Mae'r ymdrech i annog pobol hŷn y ddau bentref i gwrdd am ginio ysgafn wedi ei sefydlu ers rhai misoedd bellach ac yn profi yn boblogaidd gyda'r rhai selog. Beth bynnag, hoffem weld mwy yn manteisio ar y cyfle i gael mwynhau lluniaeth hyfryd a chymdeithasu gyda gēmau ar ôl bwyta. Mae hyn yn cymryd lle bob pythefnos, am yn ail yn Llanfair a Chellan, o hanner dydd ymlaen. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Linda Quelch 01570 493706.

Marchnad 'LUNAR'

Dim ond i'ch atgoffa fod marchnad yn cael ei chynnal yn y neuadd ar y dydd Sadwrn cyntaf yn y mis. Mae'r farchnad yn profi'n boblogaidd iawn gan bobol y pentref a'r ardal. Dewch i'n gweld - mae amrywiaeth dda o bob math o bethau ar werth, gyda chaffi bach ar agor trwy gydol yr amser. Mae yn lle da i gymdeithasu.

Priodas

Hoffem ddymuno pob hapusrwydd i Sian Thomas, Penddol a Kevin Douch o Pumsaint ar eu priodas yng Ngwesty'r Emlyn, Castell Newydd Emlyn dydd Sadwrn, Hydref 19eg. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn ymgartrefu yn Fferm Pentrelan yn y dyfodol.



Noson Canu Gwlad

Nos Sadwrn, Hydref 26ain cynhaliwyd noson o ganu gwlad gyda'r band poblogaidd Pigs Foot String Band yn denu llawer o ddilynwyr o'r ardal a'r tu hwnt. Roedd yn noson fywiog gyda'r lle yn llawn. Roedd lluniaeth a diod ar werth a chafodd y noson ei threfnu gan Lesley Stevens a Glennis Gratwick gyda help Linda Quelch a Laura Wood. Linda oedd yn gyfrifol am baratoi y bwyd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Helen Jones, Llwynieir, a Catherine Woodward, Glas y Dorlan, y ddwy wedi bod o dan lawdriniaeth yn ddiweddar.

Diolch yn fawr i:
**Sefydliad y Merched
Llanwnnen - £20.00**
am eu cefnogaeth ariannol
tuag at goffrau cynhyrchu
papur bro CLONC.
Gwerthfawrogwn hyn yn
fawr iawn.

Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed

Aeth y trip blynyddol yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i ardal Gwlad yr Haf. Bu'r 41 aelod yn aros yng Ngwesty'r Grand Atlantic, Western-Super-Mare. Cafwyd tywydd arbennig o braf tra'n ymweld â'r llong SS Great Britain a Thrysorau Oakham, sef amgueddfa a grëwyd gan ffermwr lleol i i gofnodi a chadw hen drysorau amaethyddol.

Bu ymweliadau â dwy farchnad sef un Sedgemoor sy'n farchnad newydd yn lle'r un yn Taunton, y mwyaf yn ne-orllewin Lloegr, a'r llall yn Wheddon Cross.

Cafwyd taith ddiddorol at Denis Brinicombe, cwmni teuluol sy'n arbenigo mewn cynhyrchu a chyflenwi deunydd maethlon ar gyfer y sector amaethyddol. Daeth John Hands ein cynrychiolydd lleol i gwrdd â ni a'r teulu Brinicombe a ddarparodd luniaeth ar ein cyfer.

Bu taith hefyd i Shearwell Data, cwmni sy'n arbenigo mewn systemau adnabod a thagio anifeiliaid. Buom mewn fferm ger Porlock yn y bore ac wedi cinio cafwyd cyfle i fynd o amgylch y ffatri gan weld y datblygiadau ym myd y tagio electronig ac arddangosfa o'u cyfarpar tagio.

Bu Neil Darwent yn ein tywys o amgylch fferm laeth o dan berchnogaeth Lordswood Farms Ltd.

Cafwyd agoriad llygad tra'n ymweld â fferm Andrew Wear ger Cheddar - mae'n fferm lle croesawir ymwelwyr i ddigwyddiadau ac i gampio. Mae hefyd wedi adnewyddu'r hen adeiladau fferm ar gyfer ymwelwyr a thŷ bwyta. Cafwyd cinio diddorol iawn yma yn cynnwys cig o ddefaid Shetland a gynhyrchir ar y fferm.

Ar y ffordd adre cafwyd swper blasus ym Mwyty Cwmcerrig.

Bu rhai yn codi ofn wrth fynd ar olwyn fawr tra ar eu gwyliu ac eraill â'u traed yn nes at y ddaear yn padlo'n y môr.

Cafwyd amser da dros ben.

Mae tymor 2013 / 2014 wedi dechrau erbyn hyn ac roedd y noson agoriadol yng nghofal Phil Rees o PRAG Cyf ar 2 Hydref 2013. Cwmni'n arbenigo mewn porthiant a'r ffordd mwyaf effeithiol o'i gynhyrchu. Y testun dan sylw oedd 'O hâd i fwyd'. Roedd yn noson hwylus iawn.

Nos Fawrth 15 Hydref 2013 y gŵr gwadd oedd Simon Evans, Troedyrhiw, Cwrtnewydd a'i destun oedd 'Ffordd hir at bŵer' Mae Mr Evans wedi ymddeol ar ôl bod yn beiriannydd uchel iawn ei barch ac wedi cael gyrfa lwyddiannus iawn. Cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol tu hwnt yn ymdrin â systemau pŵer trawsyriant.

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		4	8			5	7
			2				9
			4	6	2		
	4			5	9	8	
2							5
3	5		6			4	
	3		5	7			
1			3				
8	7			4	5		

Atebion Swdocw mis Hydref:

Enillydd mis Hydref
yw: **Delyth Edwards,
Deluan, Llansawel.**

Diolch i bawb arall
am gystadlu: Bethan
Williams, Neuadd
Fryn Llanybydder;
Rob Phillips, Llety
Clyd, Llanbed; Joan
Stacey, Tynwaun,
Ffaldybrenin;

Eirwyn Davies,
Heol-y-Gaer, Llanybydder ac
Eiryls Davies, Eurfann, Llanybydder.

4	9	7	5	8	3	1	6	2
5	3	6	1	7	2	4	9	8
8	2	1	9	4	6	5	7	3
1	8	9	3	2	7	6	4	5
6	4	3	8	5	9	2	1	7
7	5	2	6	1	4	3	8	9
9	1	4	2	3	8	7	5	6
3	6	5	7	9	1	8	2	4
2	7	8	4	6	5	9	3	1

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled

☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:

**Carpedi a Feinyll, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.**

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

**Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees**

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Llanllwni

C.Ff.I. Llanllwni

Ar ddiwedd blwyddyn brysur o ddathlu, cynhaliwyd Ras Hwyl ac Arddangosfa ar ddydd Sadwrn yr 28ain o Fedi yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau. Yn sicr, roedd yn ddiwrnod llwyddiannus ac roedd nifer o drigolion y pentref wedi dod i hel atgofion y 70 mlynedd, ac roedd nifer fawr o bobol wedi dod i redeg y ras. Dyma ganlyniadau'r categorïau: **17-26 oed** - 1af Steffan Jones; 2il Ifor Jones; 3ydd Aled Jones. **12-16 oed** - 1af Iolo Thomas; 2il Steffan Evans; 3ydd Josh Joynson. **8-11 oed** - 1af Daniel Jones; 2il Dafydd Jones; 3ydd Lewis Thomas. **Tan 8 oed** - 1af Jamie Jones; 2il Gwion Evans; 3ydd Elan Evans.

I gloi'r flwyddyn, cynhaliwyd Cymanfa Ganu dan arweiniad arbennig Mrs Elonwy Davies, ar nos Sul yr 29ain o Fedi, a gwledd o ganu a gafwyd! Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Lewis Davies, Beilbach. Artistiaid y noson oedd dwy aelod dalentog iawn o'r clwb sef Rhian Davies a Lois Thomas, dwy a ddaeth yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Ddydd Sadwrn yr 28ain o Fedi fe deithiodd tri aelod ifanc o'r clwb i Malvern i gystadlu yn niwrnod cystadlaethau cenedlaethol y ffermwyr ifanc. Yn dilyn llwyddiant Betsan a Mared yn y Rali eleni cawsant y cyfle, ynghyd â Ceiros, i gynrychioli Sir Gâr mewn cystadleuaeth goginio yno. Llongyfarchiadau enfawr i chi'ch tri am ddod yn ôl â'r drydedd wobr i Sir Gâr.

Yn dilyn dwy noson ac un diwrnod llawn cystadlu yn eisteddfod y Sir eleni, daeth canlyniadau da iawn yn ôl i glwb Llanllwni. Dyma restr o'r cystadlaethau a ddaeth yn y tri uchaf:-

Ymgom - Rhian Davies, Sioned Davies ac Ifor Jones - 1af; Unawd Alaw Werin dan 26oed - Lois Thomas - 2ail; Adrodd Digri dan 26 oed - Owain Davies - 2ail; Llefaru dan 16 - Mared Phillips - 2 ail; Creu Brawddeg dan 26oed (Gwaith Cartref) - Sioned Howells - 3ydd; Stori Fer dan 26oed (Cystadleuaeth Gadair) - Rhian Davies - 3ydd; Unawd Offerynnol dan 26oed - Mared Phillips - 3ydd; Parti Llefaru dan 26 oed - Meryl Davies, Lois Thomas, Cathrin Jones, Betsan Jones, Sioned Howells, Mared Phillips, Jasmine Davies, Sioned Bowen - 3ydd.

Dymunwn bob lwc i Rhian, Sioned ac Ifor yn Eisteddfod Cymru yn Ynys Môn ddiwedd y mis, gan fod yr Ymgom wedi ei dewis yn un o'r cystadlaethau fydd yn cynrychioli Sir Gâr.

Llongyfarchiadau i Ffion Rees am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Llyfr Lloffion y Sir, wedi iddi fod yn brysur iawn yn tynnu lluniau a chreu



Rhian Davies, Sioned Davies a ddaeth yn gyntaf gyda Ifor Jones yn yr Ymgom yn Eisteddfod y Ffermwyr Ieuainc, Sir Gâr.



llyfr deniadol iawn ar ran y clwb yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae'n llyfr sy'n werth ei weld!

Mae'r aelodau wedi bod yn brysur yn ymarfer gogyfer â'r eisteddfod ers sawl wythnos bellach, ac edrychwn ymlaen nawr at fynd yn ôl i'n digwyddiadau amrywiol bob wythnos. Cawsom noson chwyslyd iawn yng Nghanolfan Chwaraeon Llambled ychydig wythnosau'n ôl ac hefyd fe fuodd cadeirydd presennol y clwb, Anwen Jones yn dangos sleidiau ac yn siarad am ei thaith gyda'r coleg i Seland Newydd. Mae'n amlwg ei bod wedi joio mas draw! Cawsom ein cwrdd diolchgarwch blynyddol yn Eglwys Llanfihangel, lle cafwyd pregeth dymhorol gan y Parchedig Ganon Eileen Davies. Diolch iddi am ei gwasanaeth. Fe welwn chi ymhen y mis!

Diolch

Dymuna John ac Ivy, Aberdaudwr ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt adeg eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Angharad Davies i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Bydd Angharad, sy'n fyfyrwraig yng Ngholeg Rhydaman, yn dod atom

bob yn ail wythnos tan fis Chwefror er mwyn cael profiad o weithio gyda phlant bach yn rhan o'i chwrs coleg.

Cerddodd plant y Cyfnod Sylfaen lawr i'r parc lleol un prynhawn yn rhan o'n gwaith ar 'Hapusrwydd.' Buont yn brysur yn paratoi a threfnu parti i'r Adran Iau lle cafwyd gêmiau, stori, sioe bypedau a digon i'w fwyta. Aeth plant y Cyfnod Sylfaen i Ysgol Bro Pedr i ymuno â Gwenda Owen yn Sbri Di Ri a drefnwyd gan yr Urdd a gwelwyd Sali Mali yno.

Aeth y plant i gyd lawr i'r Eglwys brynhawn Iau, 3ydd o Hydref, i wasanaeth Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys. Buont yn canu i'r gynulleidfa a gwrando ar waith y Ficer Suzie Bale.

Rydyn yn ddiolchgar unwaith eto i gwmni Statkraft am rodd o £500 tuag at brynu adnoddau i'r ysgol.

Cafwyd noson hwylus o chwarae bingo yn Talardd nos Lun, 21ain o Hydref, lle gwnaethpwyd £671.50 o elw tuag at gronfa'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau. Diolch i John ac Ann am gael cynnal y bingo. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gynorthwyodd er mwyn gwneud y noson yn llwyddiannus. Rydym yn dymuno gwellhad buan i John Talardd yn dilyn ei anffawd.

Daeth P.C. Eleri Boning i'r ysgol i siarad â'r plant am ddiogelwch noson Calan Gaeaf a noson Tân

Llanllwni

Gwyllt.

Bydd Ffair Nadolig Cylch Meithrin ac Ysgol Llanllwni yn cael ei chynnal yn yr ysgol ddydd Sadwrn, 14eg o Ragfyr o 10yb tan 1yp. Bydd yna nifer o stondinau lle gallwch wneud eich siopa Nadolig.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol ar gyfer mis Hydref:-

1af - £10 - 27 - Emyr Williams, 31 Heol y Gaer, Llanybydder. 2ail - £5 - 236 - Elli Jones, Beilbedw, Llanllwni. 3ydd - £5 - 12 - Siriol Howells, Pantglas, New Inn.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Bu'r Gwasanaeth Diolchgarwch eleni ar y 4ydd o fis Hydref. Cafwyd gwasanaeth Plant Ysgol Llanllwni yn y prynhawn o dan ofal ein ficer, Parchedig Suzy Bale a Beth Davies Gorrig oedd yn pregethu'n yr hwyr. Diolch i'r ddwy am eu negeseuon pwrpasol. Ar y nos Wener cynhaliwyd ein Swper Cynhaef yn y Neuadd Gymunedol a daeth dros 60 o oedolion a phlant i gyd fwynhau ac wrth gwrs i gyd fwyta swper blasus iawn. Yn ein diddanu yn gynta' eleni ac yn canu'n swynol roedd Lois Thomas sy wedi symud gyda'i theulu i fyw yn Llanllwni. Braf oedd cael croesawu'r teulu cyfan i'r swper. Yn ail roedd Owain Davies, Gwndwn gyda'i adroddiad digri. Gwnaeth hynny yn raenus iawn fel arfer. Diolch yn wresog i'r ddau. Bu Eric Davies, warden y Ficer, yn arwain y noson, ac yn gwneud gwaith da fel arwerthwr! Diolch iddo yntau.

Undeb y Mamau

Yng nghyfarfod mis Hydref daeth Sian Mclean i siarad â ni am ei gwaith gyda Chymdeithas y Dall a'r Byddar yng Nghymru, cymdeithas sy mewn bodolaeth ers 82 o flynyddoedd. Mae hi'n teithio tipyn wrth ei gwaith ac yn gweld unigolion â nam difrifol. Er mwyn i ni gael syniad o brofiad y dioddefwyr, fe roddodd fwgwd a ffôn clustiau i ddwy o'r aelodau, eu troi o gwmpas sawl gwaith a gofyn iddynt ffeindio eu ffordd nol i'w seddau. Tasg amhosib! Cytunodd y ddwy eu bod wedi cael y teimlad o fod ar goll yn llwyr, heb unrhyw reolaeth.



Disgyblion y Cyfnod Sylfaen Ysgol Llanllwni gyda Mr Dewi Davies, Cadeirydd pwyllgor Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Statkraft Alltwalis wedi derbyn grant o £500 gan y pwyllgor i brynu adnoddau i'r ysgol.



Dydd Mercher y 31ain o Orffennaf aeth hanner cant o blant ac oedolion Ysgolion Sul New Inn, Gwyddgrug a'r Eglwys, Llanllwni ar drip ar y cyd i Amgueddfa Werin Sain Ffagan, ger Caerdydd. Cafwyd diwrnod pleserus iawn gan bawb, a braf oedd cael amser i fwynhau a chymdeithasu gyda'n gilydd. Nid yw'r un trip yn gyflawn heb sgolodion, wrth gwrs, a cafwyd pryd o fwyd blasus yn Cross Hands ar y ffordd adre.

Diolchwyd yn gynnes i Sian, a gwerthfawrogwn ein synhwyrâu yn fwy nag erioed.

Mr. Slaymaker o Saron fydd ein siaradwr ym mis Tachwedd.

Llongyfarchiadau i un aelod, sef Ivy Evans, a'i gŵr John sy wedi dathlu eu priodas arian yn ddiweddar. Pob bendith i'r ddau i'r dyfodol.

Genedigaeth

Yn ystod mis Hydref ganwyd merch fach, Hana Grug i Kevin a Carys Jones, Trysor, Pentop a chwaer fach newydd i Mari Lois. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i chwi fel teulu.

Y Mans,
Stryd Newydd,
Llambod.
Rhif ffôn - 01570 422587

Annwyl Ddarllenwyr,
Gair i'ch atgoffa am ddydd **PLANT MEWN ANGEN sef dydd Gwener, Tachwedd 15fed.**

Rydym yn dal ati yn y gwaith eleni eto ond yn chwilio am wynebaw newydd i helpu, un neu ddau arall sydd wedi dangos diddordeb.

Y llynedd trwy eich cydweithrediad chi codwyd y swm o £24, 525.19c gan groesi'r targed i filiwn o bunnoedd gydag wyth mil [£8000]. Eleni eto byddwn yng Nghapel Sant Tomos ar y Cwmins o 9.30y.b. tan 6.30y.h. Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

Diolch am eich cydweithrediad eleni eto.

Beti a Goronwy Evans
a'r cydweithwyr.

Llongyfarchiadau
i C.Ff.I.

Llanwenog ar
ennill Eisteddfod
CFfl Ceredigion
dydd Sadwrn
diwethaf. Bydd y
canlyniadau yn
llawn yn y rhifyn
nesaf.

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!

W.D.
Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Amacchydol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambod.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS
& BOURNE
CYFREITHWYR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambod

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Eglwys St Luc Llanllwni

Bingo Nadolig

Nos Lun, Tachwedd 25ain
2013

Am 8.00y.h.

Yn Nhafarn y Talardd,
Llanllwni

Llu o wobrau
Croeso cynnes i bawb.

Llangybi a Betws



Yn rhan o'u gwaith thema bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â "7 rhyfeddod lleol," sef Soar y Mynydd, cartref Dylan Thomas yn Nhalsarn, bedd yr eliffant yn y Talbot, cerflun Henry Richards, Ogof Twm Siôn Cati, man geni Twm Siôn Cati - Porth y Ffynnon, a siop gemwaith Rhiannon. Trefnwyd y diwrnod gan Mr Dafydd Morgan a chafwyd diwrnod bythgofiadwy. Diolch o galon iddo.



Mae dathliadau canmlwyddiant Dylan Thomas wedi dechrau! Daeth Eurig Salisbury i'r ysgol i gynnal gweithdy Dylanwad, dan nawdd Llenyddiaeth Cymru, i astudio'r llyfr "Nadolig Plentyn yng Nghymru." Cafwyd bore buddiol iawn yng nghwmni'r bardd ifanc.

Ysgol Y Dderi

Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 wersi golff yng Nghlwb Golff Cilgwyn o dan hyfforddiant Arwel Campau'r Ddraig. Cafwyd cyfle hefyd i ymchwilio'r safle yn rhan o waith hanes a daearyddiaeth Llangybi.

Bu'r Cyfnod Sylfaen yn mwynhau sioe Sbrî-di-ri yn Llanbed yn ddiweddar.

Daeth yr Arglwydd Rhys o gwmni Mewn Cymeriad i Ysgol Y Dderi i sôn am ei hunan! Cafwyd sioe ryngweithiol fywiog a diddorol, a dysgwyd llawer am hanes yr Eisteddfod a Chastell Aberteifi. Edrychwn ymlaen at groesawu rhai o gymeriadau hanesyddol enwocaf Cymru i'r ysgol unwaith eto.

Daeth PC Hannah i'r ysgol i siarad â phlant y Cyfnod Sylfaen am ei gwaith. Uchafbwynt yr ymweliad oedd cael eistedd mewn car heddlu gyda'r golau glas yn fflachio!

Diolch i Mrs Arnold Davies am dywys disgyblion blwyddyn 3 a 4 o gwmpas Eglwys St Cybi, Llangybi. Dysgwyd llawer o ffeithiau newydd a diddorol, gan gynnwys y ffaith fod coeden wedi bod yn tyfu yn y fynwent am dros fil o flynyddoedd.

Yn rhan o dathliadau Diwrnod T Llew Jones, bu disgyblion blwyddyn 3, 4, 5 a 6 ym Mhentre Bach i gwrdd â'r awdures Bethan Gwanas. Bu'r plant yn gwrandao ar hanesion difyr, ac yn helpu Bethan Gwanas ag awgrymiadau ar gyfer llyfr newydd y mae hi'n ei ysgrifennu ar hyn o

bryd. Edrychwn ymlaen at ddarllen y llyfr newydd.

Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i Stadiwm Dinas Caerdydd i wylïo Cymru v Macedonia. Gwnaethpwyd y mwyaf o'r diwrnod, gan ymweld â Sain Ffagan, y Senedd, Canolfan y Mileniwm a'r Capel Norwyeg ble bedyddiwyd yr awdur Roald Dahl. Cafwyd swper blasus yn y Bae, a llwyddodd Cymru i ennill!

Diolch i Mr Burgess am drefnu casglu blychau "Joy in a box" o Ysgol Y Dderi, i fynd at blant llai ffodus yn Romania.


Cynhaliwyd tri chwrdd Diolchgarwch yn y gymuned, yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi, Eglwys Cellan, a gwahoddwyd yr henoed i Gwrdd Diolchgarwch yn yr ysgol. Braff oedd cael croesawu ein ffrindiau o Hafan Deg. Diolch i Mrs Arnold Davies am gynnal y gwasanaethau, ac i rieni a ffrindiau'r ysgol am ddod i'n cefnogi. Casglwyd £168.52 tuag at gronfa Ambiwlans Awyr Cymru.

Daeth Terry Brown, Nyrs Ddeintyddol, i siarad am sut i edrych ar ôl ein dannedd. Bu yma am ddiwrnod cyfan, gan siarad â phob dosbarth yn unigol.

Diolch i Sophie Haddaway, am gynnal sawl gweithdy crochenwaith yn yr Ysgol. Mae disgyblion blwyddyn 5 a 6 wedi creu jarïau Canopic hyfryd!

Hamdden

Ar Hydref 4ydd cyfarfu'r aelodau



Llongyfarchiadau i Ioan Boyle, Shivawn Weston a Ben Lance am ddod yn gyntaf, ail a thrydydd yn Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion. Y dasg oedd tynnu llun hoff gymeriad o lyfr. Nododd y beirniad Gareth Lloyd ei fod e'n falch fod y disgyblion wedi dewis cymeriadau o lyfrau Cymraeg. Barti Ddu oedd testun y llun buddugol gan Ioan Boyle.



Aeth holl blant y Cyfnod Sylfaen i Sain Ffagan am y dydd i astudio hanes bywyd a gwaith y Cymry. Cafwyd gweithdai hyfryd yn Ysgol Maestir a stryd Rhyd y Car, ac roedd pawb wrth eu bodd gyda'r moch! Diwrnod i'r brenin.

yn Ysgol Y Dderi ar ddechrau tymor newydd. Llywyddwyd gan Janet Farrow ac estynnwyd croeso cynnes i bawb a dymuno adferiad iechyd i bawb a fu yn sâl. Y wraig wadd oedd Amy Waller o Landdewi a bu yn coginio. Roedd y 'cheesecake' yn ddeniadol ac yn rhwydd i'w gwneud, ac efallai y bydd ambell i 'swiss roll' yn ymddangos amser te yn fuan. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r wraig wadd gan y llywydd.

Enillwyd y raffl gan Ann Benner, Morina Davies, Barry Williams, Sally Davies, Maureen Morgans, Rowena Williams, Alunda Jones, Elizabeth Holgate, Joyce Harries, Maisie Morgans a Mair Spate. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Maisie Morgan a Mair Spate. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 8fed pan fydd Stephanie Tebbut yn dod i arddangos ei chasgliad o wahanol ddillad. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mrs Gwen Pugh, Glangors yn ei phrofedigaeth ar golli ei nith yn ddiweddar, ac hefyd â Mr Alan Jones, Hengoed yn ei brofedigaeth ar golli ei chwaer.

Adferiad

Dymunir adferiad buan i Allan Jones, Hengoed sydd wedi treulio

cyfnod arall mewn ysbyty. Brysiwch wella.

Merched y Wawr

Croesawodd y llywydd Gwyneth Jones bawb yn gynnes iawn i'r noson arbennig yma a threuliwyd noson yn cael ein diddanu a'n haddysgu gan Eleanor Morgan pan fu'n sôn am ei thaith i Nepal dan gynllun cyfnewid a datblygu addysg rhwng Cymru a gwledydd eraill. Roedd y lluniau yn drawiadol a'r hanes yn ddiddorol iawn. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog i'r wraig wadd am noson fendigedig gan Mary Jones. Fe fydd Gwyneth Jones, Deborah Jones, Mary Jones a Mair Spate yn cynrychioli'r gangen mewn cwis hwyl yn Tyglyn Aeron ar Dachwedd 15fed. Ar Ragfyr 11eg byddwn yn cael ein Cinio Nadolig yn y Sospan Fach. Rhoddwyd y raffl gan Iris Qwan a Gwyneth Jones ac fe'i enillwyd gan Eleanor Morgan a Mair Spate. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei rhoddi gan Irene Lewis. Arddangosfa goginio fydd yn ein cyfarfod nesaf ar Dachwedd 20fed.

Ar Hydref 14eg ymwelwyd â changen Llanbedr Pont Steffan ac yno cawsom noson hyfryd iawn yn cael ein diddanu gan y gŵr gwadd sef Dewi 'Pws' Morris. Cawsom ganddo hanes ei deithiau diddorol ac amrywiol a sawl stori ddoniol.

Llanybydder

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Jack a Ray Jenkins, Gelli House ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod diwedd mis Hydref. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathliad.

18 oed

Rhaid llongyfarch Sion Evans, Pentop ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18oed ddiwedd mis Hydref. Pob dymuniad da i ti Sion i'r dyfodol.

Hefyd, i Daniel Garside, Gelli Aur ar ei ben-blwydd yntau yn 18 oed yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Eddie Thomas a'r teulu, Gwargraig ar golli brawd ac ewythr hoffus ac yn yr un modd â Wyn Thomas, Brynlllo Fawr yn yr un brofedigaeth o golli ewythr sef Elwyn Thomas o Dryslwyn.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Eirlys Davies, Eurfann sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Treforys. Brysia wella. Rydym yn disgwyl dy weld ti nôl gyda ni yn Tenovus, Llambled yn fuan.

Diolch

Dymuna Daniel Garside, Gelli Aur, Rhyd-y-bont ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

Merched y Wawr

Nos Lun Medi 30ain daeth aelodau Merched y Wawr i Festri Aberduar i ddathlu pen-blwydd y gangen yn 30 oed.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Mrs Nans Davies ein llywydd ar achlysur mor arbennig yn ein hanes.

Yn dilyn bwffe blasus iawn, cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan Ms Liz Fiddler, ein gwraig wadd. Soniodd am bwysigrwydd merched yn y gymdeithas ar hyd y blynyddoedd. Diolchwyd yn gynnes iddi gan ein llywydd a diolchodd i'r aelodau am baratoi'r bwyd. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Audrey Evans, oedd Mrs Caroline Davies. Gorffennwyd y noson drwy ganu cân y Mudiad.

Nos Lun 21ain o Hydref aeth yr aelodau i Gaerfyrddin i Fowlio Deg ac wedyn cafwyd pryd o fwyd yn Con Passionata i orffen noson o hwyl a sbri.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Aberduar ar y 25ain o Dachwedd am 7.30. Croeso i aelodau newydd ymuno.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Huw ac Olga Evans, Coedparc ar farwolaeth ei chwaer sef Ena James o Lanon a fu farw'n ddiweddar.



Clwb Hoci Llanybydder

Roedd gêm agoriadol y tymor i Glwb Hoci Llanybydder yn erbyn Tregaron yn Llanbed ddydd Sadwrn 12fed o Hydref. Roedd Llanybydder yn gryf o'r chwiban cyntaf, ac yn pasio'n wych i greu lle i'r blaenwyr i dderbyn pêl dda. Ar yr hanner, 2-0 i Llanybydder. Hyderus oedd chwarae Llan yn yr ail hanner, pasio chwim i greu lle, a'r blaenwyr yn sgori mwy. Y sgôr terfynol oedd 10-0 i Llan, dechrau arbennig i'r tymor.

I lawr i Abergwaun i gêm yr wythnos ollynol, lle cafwyd dechrau sigledig gyda Llanybydder ac Abergwaun yn sgori tair gôl mewn amser byr. Wrth ddal ati a phasio'n dda, daeth Llanybydder nol i 3-2 ar yr hanner ac yn hyderus i ddechrau'r ail hanner yn gryf. Cafwyd sawl ymgais am y gôl, a gôl geidwad Abergwaun yn safio llawer, a Llan yn anlwccus iawn i ddod o'r cae wedi colli 3-2.

Roedd trydydd gêm y tymor lawr yn Aberteifi yn erbyn Castell Newydd Emlyn. Gêm agos iawn yn yr hanner gyntaf, a Llan yn torri trwyddo ac ar y blaen o 1-0 ar yr hanner. Daeth Castell Newydd yn ôl yn syth o symudiad cyntaf yr ail hanner a'r sgôr nawr yn 1-1. Chwarae arbennig gan y ddau dîm, pasio da a phawb yn rhoi'u gorau. Gôl i'r ddau dîm ar ôl chydig mwy o amser yn dod â'r sgôr yn 2-2. Yn anffodus, Castell Newydd a gafodd y golau nesaf, a Llan yn colli'n drwm ar y chwiban olaf o 6-2. Canlyniad siomedig o safbwynt y tîm ar ôl gem agos a chyflym iawn.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Alan ac Ann Bellamy ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto, sef merch fach i Catrin a Glyn yn Llanarth.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Meinir ac Andy, Y Fedw ar enedigaeth bachgen bach, Thomas ddiwedd mis Hydref. Hefyd, i Eddie ac Eirian ar ddod yn dad-cu a mam-gu am y tro cyntaf.

Lap o Gymru

Adeg y Pasg eleni bu nifer o bobl ifainc o'r ardal ar daith feic nodeddig o amgylch Cymru gan gychwyn a gorffen yn Llanybydder, i godi arian tuag at Ymchwil y Cancr yng Nghymru. Nos Sadwrn y 26ain Hydref yn Nhafarn yr Eagle Llanfihangel ar Arth bu'r grŵp y yn cyflwyno siec am £15,255.14 i bwyllgor Llanybydder a Llambled, Ymchwil y Cancr. Yn y llun gwelir Llyr Davies a fu yn trefnu'r daith yn cyflwyno'r siec i swyddogion y pwyllgor sef Ieuan Davies, Lucy Jones a Susan Evans. Hefyd yn y llun mae nifer o'r rhai a fu yn cymryd rhan yn y daith, Rhys Jones, Tracey Davies, Kelly Davies, Emma Davies a Michelle Davies. Pedwar arall a fu'n cymryd rhan ond a fethodd â bod yn bresennol oedd Dyfrig Davies, Angharad Morgan,

Llyr Jones a Mererid Davies. Yn dal y siec ar y chwith mae Maria Parker, un o swyddogion Ymchwil y Cancr yng Nghymru a fu yn sôn fel y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio mewn ymchwil i gancr yn y labordy yng Nghaerdydd. Bu hefyd yn cyflwyno tystysgrifau a medalau i'r beicwyr. Diolchodd Maria Parker a Ieuan Davies yn gynnes iawn iddynt am godi cymaint o arian. Hoffai'r criw ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth eu nodd i a'u helpu i wneud y daith yn un mor llwyddiannus.

£17.50 yw pris
Tanysgrifiad
Blwyddyn
Papur Bro
Clonc.
Beth am ei
brynu fel
anrheg i
rywun?

Cysylltwch â
Mary Davies,
ysgrifenyddes
Clonc
ysgrifennydd@
clonc.co.uk

Pencarreg

Adferiad Iechyd

Yn dilyn anffawd dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Margaret Pope. Gobeithio'n fawr ei gweld yn cerdded mor chwimwth ag erioed yn ôl ei harfer o'r pentref ar y ffordd i Lanybydder.

Pen-blwyddi Arbennig

Pen-blwydd Hapus arbennig yn 18 oed ar Dachwedd 4ydd i Sian Elin Williams, Muriau Gwyn, ac hefyd i Audrey, Blaencarreg ar ben-blwydd arbennig y mis yma.

Cerddorol

Llongyfarchiadau i Jasmine Davies, Glenview, Pencarreg am basio gradd 4 arholiad canu gyda 'distinction', gradd 3 arholiad canu gyda 'merit' a gradd 1 arholiad piano gyda 'distinction' yn ystod y flwyddyn.

Cwmsychpant

Diolch

Hoffai Carwyn Davies, Caerwenog ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn ddeunaw oed.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyr a dwysaf at Mrs Mair Thomas, Maes y Meillion, Dryslwyn [ond fel Mair Tyngrug Uchaf y gŵyr pawb amdani yn yr ardal] yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei gŵr, Elwyn a fu farw yn ystod y mis.

Cwrdd Diolchgarwch

Cafodd pawb a oedd yn bresennol yng Nghwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm eu plesio yn fawr iawn. Cafwyd croeso fel arfer gan y Parch Wyn Thomas ac ef yn ei dro a groesawodd ein pregethwr gwadd, sef y Parch Richard Lewis o Bow Street ger Aberystwyth. Bu wrthi yn ei ffordd unigryw iawn yn diddanu'r plant i ddechrau gydag arbrawf syml gyda help Owain ac Osian ac yna cafwyd ganddo bregeth gofiadwy iawn. Hyfryd oedd cael cwmni ei briod Mair gyda ni hefyd ac fe drodd pawb o'r Cwm y noson honno gan ddiolch am gael bod yn bresennol mewn oedfa a erys yn y cof am amser maith. Wrth yr organ roedd Mrs Eleri Jenkins, Bryngolau.



Mae Nia Richards, Cymdeithas Adeiladu y Principality, Llanbedd gyda chymorth ei chyd-aelodau yn Nhîm Rasio Beics Gorllewin Cymru wedi cwblhau taith noddedig a chodi £928 (yn cynnwys Cymorth Rhodd) er mwyn hyfforddi mwy o bobl i fedru dysgu sut i gynnal bywyd mewn argyfwng a phrynu offer deffibrileiddio ar gyfer Llanbedd, a mannau eraill ledled Cymru. Hoffai Nia ddolch i Dîm Rasio Gorllewin Cymru, Julian Evans, a Jayne Lewis o Sefydliad Prydeinig y Galon am noddi, ac i bawb a roes gefnogaeth iddi yn lleol adeg y daith. Yn y llun mae Nia ar y dde gyda gweddill aelodau'r Tîm Rasio ynghyd â Mr David Smith, Cadeirydd Sefydliad Prydeinig y Galon, cangen Llanbedd, ei ferch Lucy, a Mrs Jennie Bracher, ysgrifennydd Sefydliad Prydeinig y Galon, Llanbedd.



Ros Jones yn derbyn sicc am £1071.25 ar ran Ambiwlans Awyr Cymru gan Nicola Hunter, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Llanbedd; Gabrielle Cattell, Swyddog Lles ac April Griffiths, Trefnydd. Codwyd yr arian adeg gêm elusen pan noddwyd y chwaraewyr i wisgo fel merched. Gwelir y chwaraewyr yn y llun.

Colofn C.Ff.I.



Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr

Nos Wener, 11eg Hydref 2013, Nos Wener 18fed Hydref a dydd Sadwrn 19eg Hydref 2013 cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Sir Gâr yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.

Kim Morgan oedd y beirniad cerdd, Mr Dafydd Jones oedd yn beirniadu cystadleuaeth y Sgets, Menna Jones yr Adran Lefaru, Dwynwen Teifi oedd y beirniad gwaith cartref, Catherine Young oedd beirniad adran y dawnio disgo ac Aled Rees oedd beirniad y gystadleuaeth Dawnio Stepio a'r Deialog Digri ar y pryd. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonynt am eu gwasanaeth arbennig.

Yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Stori fer ac yn ennill Cadair y Sir eleni oedd Ffion Jones, Llanfynydd. Roedd y gadair eleni yn rhoddedig gan Mr Arwel Jones (Cadeirydd y Sir). Mr John James oedd yng ngofal Seremoni'r Cadeirio gyda Heledd Thomas yn canu Cân y Cadeirio a Lois Price yn canu'r Corn Gwlad.

Dafydd Davies, Ifor Jones, Chris Thomas a Seimon Walters fu'n cyfarch y buddugol. Geraint Rees oedd yn cyfeilio yn ystod y seremoni.

Bu yna gystadlu brwd gyda C.Ff.I Llanfynydd yn fuddugol ac yn ennill y darian, a chlwb Penybont yn 2ail a Llangadog yn 3ydd.

Gyda'r Darian Gwaith Cartref C.Ff.I Llangadog oedd yn 1af, Dyffryn Tywi yn 2ail a Dyffryn Cothi yn 3ydd.

UNAWD ALAW WERIN – 26 NEU IAU - Lois Thomas, Llanllwni 3ydd.

UNAWD OFFERYNNOL – 26 NEU IAU - Mared Phillips, Llanllwni cyd 3ydd. **LLEFARU** - 16 NEU IAU - Llanllwni cydradd 3ydd.

ADRODDIAD DIGRI - 26 NEU IAU - Owain Davies, Llanllwni 2il.

YMGOM - 26 NEU IAU - Rhian Davies, Ifor Jones & Sioned Davies

Llanllwni 1af. **STORI FER** - 26 NEU IAU - Rhian Davies, Llanllwni 3ydd.

CYWAITH CLWB - 26 NEU IAU - Carys Thomas, Gwawr Bowen, Cwmann 2il. **BRAWDDEG** - 26 NEU IAU (½ cyst) - Sioned Howells,

Llanllwni 3ydd.

Colofn Cefn Gwlad

gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad
Cyfoeth Naturiol Cymru



Yr Adar Bach

Mae'r tywydd wedi troi a mae'r wledd o fwyar a chnau a gawsom eleni wedi cilio o'r cloddiau. Amser i ail-ddechrau bwydo'r adar bach dros y Gaeaf. Yr wythnos hon dechreuais i roi bwyd allan ar y bwrdd adar a mae'n syndod bod gennyf tua deg ymwelydd cyson yn barod. Un Robin Goch, pedair Titw Tomos Las, tair Titw Mawr a Siglen Fraith. Fuodd ambell i Ji-binc a Delor y Cnau yn ymweld â'r bwrdd y llynedd ond efallai nad ydynt wedi dod o hyd i'r bwyd eto a gobeithio caf eu gweld yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn ôl yr RSPB, mae hanner oedolion y Deyrnas Unedig yn bwydo adar bach yn eu gerddi. Mae hynny'n help mawr i'r adar ond mae hefyd yn help i ni gysylltu â Byd Natur. Trwy fwydo'r adar y tu allan i'r gegin, rwy'n cael cyfle i edrych yn fanwl ar eu gwahanol liwiau a'r ffordd maen nhw'n ymddwyn gyda'i gilydd. Os ydych yn cadw dyddiadur, efallai eich bod yn nodi faint o adar yr ydych yn eu gweld bob dydd, neu'n nodi dyfodiad ymwelwyr i'n gerddi o wledydd estron fel y Socan Eira a'r Coch Dan-Aden sy'n ymweld â Phrydain o wledydd Sgandinafia dros y Gaeaf.

Beth i fwydo'r adar?

Rwy'n rhoi cnau bys mewn daliwr bwyd adar sydd â mesh amdano. Mae'r rhain yn uchel mewn braster felly maent yn rhoi llawer o egni i'r adar er mwyn cadw'n gynnes dros y cyfnod oer. Mae'r Titw Tomos Las a'r Titw Mawr yn hoff iawn ohonynt ac mae'r Robin Goch yn bwyta'r cnau sydd wedi'u dorri ar y llawr neu ar y bwrdd adar. Ni ddylech ddefnyddio cnau sydd wedi'u halltu na'u rhostio a dylech ddefnyddio cnau cyflawn dros y Gaeaf yn unig am eu bod yn anaddas ar gyfer adar ifanc.

Mae gennyf hefyd ddaliwr hadau ar gyfer adar a dwi'n prynu bagiau gyda chymysgedd arbennig ar eu cyfer. Rydych yn gallu cael pob math o wahanol fagiau ar gyfer adar gwahanol. Mae hadau bychain yn apelio at y Ji-binc, Bras y Cyrs ac Aderyn y To tra bod corn yn apelio at yr Aderyn Du.

Mae peli braster yn fwyd ardderchog dros y Gaeaf. Os ydych yn eu prynu cofiwch dynnu'r bagiau mesh neilon sydd o'u hamgylch gan eu bod yn gallu niweidio adar a mamaliaid bach. Gallwch hefyd wneud eich peli braster eich hun - prosiect gwych i wneud gyda'r plant dros y penwythnos!

Nid oes angen i fwydo'r adar gostio rhyw lawer i chi gan eich bod yn gallu defnyddio llawer o'ch sbarion bwyd! Mae'r canlynol i gyd yn addas ar gyfer bwydo'r adar:

- crwyn eich llysiau
- caws caled wedi'i gratio
- coconyt ffres yn ei gragen (wedi'i wagio o'r dŵr melyn)
- grawnfwyd brecwast, gan gynnwys ceirch heb ei goginio
- reis wedi'i goginio (heb halen)
- tatws wedi'u pobi, stwnsio neu rostio gyda pheth braster ychwanegol fel lard
- afalau, peren neu ffrwythau eraill wedi'u torri (gwell na'u taflu i'r bin pan maent yn ofer)
- ffrwyth sych fel syltan a chwarens (yn ddelfrydol os ydynt yn sbâr ar ôl gwneud y gacen Nadolig!)
- pasta o unrhyw fath wedi'i goginio neu beidio
- bara, ond byddwch yn ofalus i beidio â rhoi gormod o fara allan oherwydd mae'n llanw stumogau'r adar a does yna ddim digon o faeth ynddo i'w cynnal dros y Gaeaf.
- braster llawn fel suet neu lard (nid oes gan margarin ddigon o egni ar gyfer yr adar)

Byddwch yn ofalus rhag rhoi halen i adar bach gan ei fod yn crynhoi yn eu cyrff ac yn eu gwenwyno. Peidiwch â rhoi llaeth allan oherwydd nid yw stumogau adar yn gallu treulio llaeth a gofalwch nad ydych yn rhoi 'dessicated coconut' neu mi all chwyddo tu fewn iddynt ac achosi iddynt farw.

Cofiwch adael dŵr ffres allan i'r adar yn enwedig dros gyfnodau rhewllyd!




Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel helo blantos, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd eleni eto ac mae noson Guto Ffowc yn agosau! 'Dw i wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth fawr. Ydych chi'n hoffi gwyllo tân gwyllt? Ble fyddwch chi'n mynd i wyllo tân gwyllt eleni? Cofiwch blant mae'n bwysig i chi fod yn ofalus ar Noson Guto Ffowc gan fod tân gwyllt yn gallu fod yn beryglus iawn.

Bu llwyth ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio fy llun ohona i yn ennill y ras ac roedd ôl ymdrech fawr iawn i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn enwedig i Elen Medi Jones o Lanbedr Pont Steffan, Elen Morgan o Drefach, Osian Lewis Jones o Gwmann ac i Swyn Efa Tomos o Bencarreg am luniau taclus. Roedd rhain i gyd yn luniau lliwgar a gwyh. Ond ar y brig y mis hwn mae Lowri Hanna Jones, Pantyrhendy, Llanarth. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Ewch ati nawr i liwio llun y tân gwyllt! Danfonwch nhw ataf i cyn dydd Llun, Tachwedd 25ain.



Enillydd
y mis!

Lowri
Hanna
Jones



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



SENGHENNYDD (58)

'Y seintiau' yw enw'r ffyddloniaid o gefnogwyr brwd ar dîm rygbi Senghennydd a hynny o bosib am mai canfyddiad mai cymreigiad o enw sant o Sais a elwir Cenydd yw'r enw Senghennydd. Canfyddiad yn unig yw hynny - a chanfyddiad cwbl gyfeiliornus.

Roedd Senghennydd yn enw ar hen gantref ym Morgannwg a estynnai o gyrion Caerdydd, rhwng afonydd Taf a Rhymni, hyd at Merthyr Tudful; rhennid y cantref yn ddau gwmwd sef Senghennydd Uwch Caeach a Senghennydd Is Caeach. Hynny yw, roedd nant Caeach yn ffin rhwng y ddau gwmwd, y naill gwmwd uwchlaw'r nant a'r llall islaw'r nant.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth Senghennydd yn enw ar y gymuned lofaol a ddatblygodd wedi suddo pwll yr Universal Steam Coal Company yn 1891-93, ac agor gorsaf y rheilffordd yn 1894. Dyma'r gymuned a ddiodeffodd yn enbyd yn sgil ffrwydrad yn yr Universal Colliery yn 1913 pan gafodd 439 o lowyr eu lladd.

Mae Senghennydd yn enw Cymraeg hynafol iawn ac wedi ei lunio ar batrwm tebyg i amryw enwau cynnar eraill sy'n dynodi tiriogaeth. Yn achos Senghennydd ychwanegwyd y terfyniad tiriogaethol cyffredin '-ydd' at enw personol er mwyn dangos perchnogaeth y person penodol hwnnw a'i ddisgynyddion ar y tir. Dyma'r patrwm a welir mewn enwau megis Eifionydd < Eifion, Meirionnydd < Meirion, Gwynionydd < Gwynion.

Yn achos Mefenydd ychwanegwyd y terfyniad tiriogaethol at yr enw personol Mafan ac achosodd hynny newid yn y ddwy lafariad. Dyna a ddigwyddodd hefyd yn Senghennydd lle yr ychwanegwyd y terfyniad

tiriogaethol at yr enw personol Sangan; datblygodd '-h-' dan y goben acennog. Ystyr Senghennydd felly yw 'tiriogaeth sy'n eiddo i Sangan'.

TRAETH SILIA, GWAR SILIA, TRO SILIA

Tri enw arall, yng nghyffiniau Aberteifi y tro hwn, sy'n dangos bod y canfyddiad ynglŷn ag ystyr yr enwau ar goel gwlad yn gyfeiliornus yw Traeth Silia, Gwar Silia a Tro Silia - ar afon Teifi. Mewn trafodaeth ar rai o enwau pyllau a bwriau (beats) pysgotwyr eog afon Teifi yn 1867 yr enw a roir ar Draeth Silia yw Traeth Silian a chyfieithir hwnnw yn 'spawning shore' sef traethell lle mae eogiaid yn bwrw grawn neu'n claddu. Dyna'r canfyddiad er mai 'silio' a ddisgwyldid, fel rheol, yn ail elfen. Ac unwaith eto mae'r canfyddiad o ran ystyr yn gwbl gyfeiliornus. Nid yw eogiaid yn bwrw grawn mewn dŵr llanw ac mae'n ddŵr llanw neu'n ddŵr morol yn afon Teifi hyd at Gilgerran - ac ar lanw uchel mae'n ddŵr llanw hyd at Bont Llechryd a hyd yn oed yn uwch na hynny. Dyna ddau anhawster pendant gyda'r gyfres o enwau sydd dros y sylwadau uchod - Traeth Silia(n), Gwar Silia a Tro Silia.

Ar y llaw arall, mae'n bosibl mai cyfeirio at draethell silio rhywogaeth arall o bysgod a wna'r enwau hyn. Ond mae amheuaeth a yw'r un rhywogaeth o bysgod yn silio ar draethellau aberoedd.

Yn niffyg tystiolaeth anodd dweud dim pellach. Rhaid aros gan obeithio y bydd modd, ryw ddydd, droi carreg a fydd yn help i ddatgelu'r cyfan.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com

Plant yn helpu teuluoedd llai ffodus



Plant Ysgol Llanwnnen



Plant Ysgol Cwrtnewydd



Plant Ysgol Carreg Hirfaen



Y Rheolwr, Betty Evans a staff Banc HSBC, Cangen Llanbed yn cynnal Bore Coffi noddedig i MacMillan yn ddiweddar. Noddwyd yr achlysur gan siop Spar Llanbed Mae'r rheolwr Chris Walters a'r rheolwr Cynorthwyol Sian Lloyd ar y dde.



Bu Cneifio Llambed yn llwyddiannus iawn eleni eto ac yn ystod eu cinio blynyddol yng Nghefn Hafod, Gorsgoch cyflwynodd y pwyllgor ddwy siec, £500 i Glwb Rygbi Iau Llambed a £500 i Glwb Hoci Llanybydder.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llanbed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Chwaraeon y Cylech



Dymunwn bob lwc i Llywelyn James, disgybl ym mlwyddyn 6 yn Ysgol Carreg Hirfaen sydd wedi cael ei ddewis ar gyfer carfan pêl droed Ysgolion Sir Gaerfyrddin dan 11 ar gyfer tymor 2013-14. Mwynha'r profiad Llywelyn.



Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Gregson, Cwmann ar gwblhau hanner marathon Caerdydd ar y 6ed o Hydref. Hoffai ddiolch o galon i bawb a wnaeth ei noddi. Mi fydd yr arian yn mynd tuag at elusen Cystic Fibrosis 'Running with Nancy'.



Tîm Rygbi Ysgol Carreg Hirfaen.

Ffotograffiaeth

Portread Stiwdio neu ar-leoliad

£99

Cynnig Nadolig

Mwy o fanylion:

lleucu.com | 01570 480907 | 07966 014348



Osian Jones, Clwb Bowlio Llambed yn ennill cystadleuaeth bowlio dan 16 y Sir.

Ffair Nadolig Christmas Fayre

Dydd Sadwrn 30 Tachwedd
12 - 4pm

Neuadd y Celfyddydau, Campws Llambed

Stondinau • Crefftau
Arddangosfeydd • Gweithgareddau
Grotto Siôn Corn £2

Croeso gynnes i bawb

01570 424704
a.milcoy@tsd.ac.uk

S4/C Calon Cenedl Heart of the Nation

Isdeitlau Subtitles

Am Ddrama

9.00
Bob nos Sadwrn

Chwe ardal, chwe grŵp o berfformwyr, un canwr opera... Am Ddrama!

Noddwyd gan gocompare.com

s4c.co.uk